

ECO'R WYDDFA

Rhif 209

CHWEFROR 1995

Pris 25c

Gôl Fawr Marc



Llongyfarchiadau i Marc Lloyd Williams a thim pêl-droed Dinas Bangor am sicrhau gêm gyfartal yn erbyn Wrecsam yng Nghwpan Cymru nos Fawrth, Ionawr 24. Marc sgoriodd gôl gyntaf Bangor yn erbyn y tîm fydd yn ymweld ag Old Trafford i wynebu Manchester United ddiwedd yr wythnos. Pob hwyl iddo pan fydd Bangor yn teithio i Wrecsam pan ail chwaraeir y gêm.

Rheithor Newydd Llanberis a Llanrug



Y Parchg Idris Thomas; Esgob Bangor; Y Parchg Philip Hughes; a'r Parchg Elwyn Roberts.

Estynnwn groeso i'r ardal i reithor newydd yr Eglwys yng Nghymru ym mhlwyfi Llanberis a Llanrug, y Parchedig Philip Hughes. Bydd yn gwasanaethu yn eglwysi Peris Sant, Nant Peris; Padarn Sant, Llanberis; Gabriel Sant, Cwm-y-glo; a Mihangel Sant, Llanrug.

Cynhaliwyd oedfa arbennig i'w sefydlu yn ei ofalaeth newydd yn Eglwys Padarn Sant, Llanberis, nos Iau, Ionawr 12. Arweiniwyd yr oedfa gan y Deon Gwlad, y Parchg Idris Thomas, Trefor. Cymerwyd rhan hefyd gan yr Archddiacon Elwyn Roberts, a phregethwyd gan y Parchg Barry Morgan, Esgob Bangor.

Yn dilyn yr oedfa darparwyd lluniaeth gan chwiorydd yr eglwysi yng Ngwesty Dolbadarn.

Daw'r Parchg Philip Hughes yn wreiddiol o Benmaenmawr. Bu'n dilyn gyrfa mewn banc am rai blynyddoedd cyn cael ei ordeinio'n offeiriad. Treuliodd un mlynedd ar ddeg yn rheithor ym Moelfre, Ynys Môn, cyn symud i'w blwyfi newydd yn y fro hon ddechrau'r flwyddyn.

Mae ganddo ef a'i wraig, Sandra, sy'n gweithio yn y Brifysgol ym Mangor, ddwy ferch. Mae Catrin yn gweithio ym Manceinion a Rhian yn y Coleg yn Lerpwl.

Ymdrech Fawr Ann



Mae un o weithwyr brwdfrydig yr Eco yn brysur yn casglu arian at Uned y Llygad yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl.

Ann Gibbins o Bontrug yw trefnydd bwndelu yr Eco. Hi sy'n cyfri'r copïau ac yn gwneud yn siŵr bod y nifer cywir yn cael eu hanfon i'r dosbarthwyr yn y gwahanol bentrefi.

Flwyddyn yn ôl bu raid iddi gael triniaeth ddifrifol i'w llygad yn Lerpwl, â hithau yn dioddef o gancr y llygad. Hi oedd un o'r cyntaf erioed i gael y llawdriniaeth lesar arloesol yn Lerpwl. Llwyddwyd i ddelio â'r cancr heb orfod tynnu'r llygad.

Ni fusasai hynny'n bosibl oni bai am y dechnoleg lesar newydd. Ond oherwydd cymhlethdod y driniaeth ni all Ann weld fawr ddim ag un llygad erbyn hyn. Nid yw hynny fodd bynnag wedi ei rhwystro rhag dychwelyd i'w gwaith fel pensaer ym Mangor.

Mae Ann a'i gŵr, Jeremy, yn aelodau o'r grŵp gwerin offerynnol, Aderyn Prin. Mae Ann yn canu'r acordion a Jeremy yn chwarae'r gitâr. A'r wythnos diwethaf bu'r grŵp yn cadw noson mewn gwesty ym Mhorthaethwy i godi arian i brynu offer gwerthfawr ar gyfer yr Uned Arbennig yn Lerpwl. Byddai

Taith Fawr Eurwyn

Bydd Eurwyn Jones, o Fethel, yn treulio mis yn gweithio ar fferm yn Seland Newydd. Llwyddodd i gael ei ddewis yn un o'r pedwar o Gymru a fydd yn teithio i Seland Newydd dan nawdd Mudiad y Ffermwyr Ieuainc. Mae Eurwyn, sy'n 25 mlwydd



oed, yn un o aelodau mwyaf gweithgar Clwb Ffermwyr Ieuainc Caernarfon, sy'n cynnal ei gyfarfodydd ym Methel. Yn ei dro, bu'n gadeirydd ac yn ysgrifennydd y Clwb. Mae ei gyd-aelodau yn hynod o falch ei fod wedi cael ei ddewis ar gyfer y daith. Ac o gofio mor hoff yw Eurwyn o rygbi, gobeithio y caiff gyfle i weld meistri'r crysau duon mewn ambell gêm. Dymunwn yn dda iddo, gan ei sicrhau y bydd digon o gyfle iddo adrodd yr hanes wrth wahanol gymdeithasau'r ardal wedi iddo ddod adref.

Ann yn falch iawn o dderbyn unrhyw gyfraniad tuag at yr Apêl. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â hi yn ei chartref yn Lodj Plas Tirion, Pontrug (01286 673696).

Feiddiwn ni ddweud bod enw'r grŵp yn enw addas ar gyfer Ann Gibbins ei hun? Mae'n 'aderyn prin' trwy fod ymysg y cyntaf i dderbyn y driniaeth arloesol i'w llygad. Mae hefyd yn 'aderyn prin' yn y modd yr ymgartrefodd yng Nghymru; Saesnes ydyw a ddysgodd Gymraeg pan ddaeth i fyw ym Mhontrug. Erbyn hyn mae'n rhugl yn yr iaith ac yn athrawes cyrsiau Wlpan ei hunan. Dymunwn yn dda iddi hi ac i'r ymdrech codi arian.

ECO'R WYDDFA

Rhif 209
CHWEFROR 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(0248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (0248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 2
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, CHWEFROR 20
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAWRTH	MAWRTH 2	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 30	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 27	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MEHEFIN 1	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 29	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Entrepreneur Ifanc Livewire 1995

Annwyl Olygydd,

Rydym yn chwilio unwaith eto am entrepreneur ifanc gorau 1995. Mae'r gystadleuaeth hon, a noddir gan Shell ac a gydlynir gan TARGED, ar agor i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd wedi cynhyrchu cynllun busnes ar gyfer menter arfaethedig neu un sy'n bodoli eisoes. Eleni cynigir cyfanswm o £190,000 mewn gwobrau gyda'r sawl sy'n ennill y teitl o 'Entrepreneur Ifanc Livewire y Flwyddyn' yn derbyn y brif wobr o £5000.

Mae cystadleuaeth Livewire yn gyfle ardderchog i bobl ifanc nid yn unig i ennill gwobrau ariannaol a dod i gysylltiad â phobl ifanc o'r un tueddfryd, ond hefyd i gael cyngor o ansawdd, arweiniad a chefnogaeth rhad ac am ddim i ddatblygu eu busnes.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi busnes yn ogystal â'r cyfle i fynd drwy rowndiau terfynol lleol a rhanbarthol nes cyrraedd rown derfynol Livewire yn Llundain.

Mae'r tri a gyrhaeddodd rownd derfynol Gwynedd y llynedd, Brian Evans, Joanna Adams a Tony Thomas i gyd yn dweud bod eu busnesau'n mynd o nerth i nerth. Roedd Tony Thomas o Gaerwen, sy'n cadw busnes dylunio cyfrifiadurol Cadlunio ac a enillodd rownd derfynol Livewire Cymru gyfan 1994, yn llawn canmoliaeth i'r gystadleuaeth ac i'r cyfle a daeth trwyddi.

Cysylltwch â mi am ragor o wybodaeth am y gystadleuaeth:

VANESSA FRICKER

TARGED

Parc Menai

Bangor, Gwynedd LL57 4BN

Tel: (01248) 671444

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Mynd i'r Pictiwr

Aeth canrif heibio ers i ni yng Nghymru weld ffilmiau am y tro cyntaf. Dangoswyd y ffilmiau sinematograff cyntaf ym Mharis yn 1895 gan y brodyr Lumière. Cyn pen blwyddyn daeth y dechnoleg newydd i Gymru, a thrwy ymdrechion glew arloeswyr fel William Haggard ac Arthur Cheetham a'u sioeau symudol, tyfodd y sinema yn rhan annatod o ddiwylliant poblogaidd y ganrif hon.

Dros y blynyddoedd bu Cymru yn llwyfan i ffilmiau (megis 'How Green Was My Valley'), yn fagwrfan i actorion a chyfarwyddwyr byd enwog megis Emlyn Williams, Hugh Griffith, Richard Burton, Anthony Hopkins, ac yn fwy diweddar yn ganolfan gynhyrchu i'w ffilmiau safonol ei hun. Ond nid hanes enwogion yn unig yw hanes y sinema. Lawn mor bwysig yw profiad pob gyffedin o fynd i'r sinema, yn enwedig yn y cyfnod cyn dyfodiad y teledu, pan oedd y sinema yn fan cymdeithasu allweddol a'i dylanwad yn gryf ar ffasiynau ac agweddau yr oes.

Beth oedd eich profiad cyntaf chi o fynd i'r pictiwr? Pa mor aml fydddech chi'n mynd? Ydych chi'n cofio'r ffilmiau mud a phianydd neu gerddorfa yn darparu'r gerddoriaeth? A fydddech chi'n mynd yn blentyn i weld y cowbois yn saethu Indiaid Cochion yn y sioeau Sadwrn? Pwy oedd eich arwr ar y sgrîn fawr? A oedd mynd i'r sinema yn beth parchus? Fuoach chi'n caru yn y seddau dwbwl yng nghefn y sinema? A gawsoch chi'r cyfle erioed i fod yn 'extra' mewn ffilm a wnaethpwyd yng Nghymru?

Fel rhan o gywaith i ddathlu'r canmlwyddiant mae Amgueddfa Werin Cymru ac Archif Ffilm a Theledu Cymru yn awyddus i gofnodi atgofion pobl Cymru o'r sinema. Beth am ysgrifennu pwt o lythyr atom i sôn am rai o'r profiadau sydd wedi aros yn eich cof? 'Rydym yn cynnig gwobr o £25 am y llythyr gorau. Rhwng wybod inni hefyd os oes gennych hen luniau o'ch 'pictiwr' lleol neu bobl a fyddai'n gweithio yno.

Y cyfeiriad yw:

BETH THOMAS

Adran Amaethyddiaeth, Crefftau a Bywyd Diwylliannol

Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan

CAERDYDD CF5 6XB

Beth am anfon eich atgofion am yr hen 'pictiwr' y fro at yr Eco hefyd? Byddem yn falch o gael cyhoeddi peth hanes y sinema bychain hyn — Gol.

Llythyr i Ciper

(URDD GOBAITH CYMRU)

Annwyl blant!

Dyma fi'n ysgrifennu llythyr atoch chi. Ond beth hoffwn i mewn gwirionedd yw i chi ysgrifennu ataf i!

Mae Cystadleuaeth Ysgrifennu Llythyr i blant ysgolion cynradd yn y cylchgrawn CIP ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth. Daw'r gwobrwyon ariannol gwych gan y Swyddfa Bost — £25 i bob enillydd a £100 i ysgol pob enillydd (£750 i gyd). Yn goron ar y cwbl bydd cyfle i'r enillwyr ymddangos ar y rhaglen 'Uned 5' ar S4C.

Beth am i CHI gynnig? Mae dau ddosbarth — un dan 9 ac un dros 9 oed.

Gwnewch lythyr 300 gair i'ch ffrind ar y testunau hyn:

Ionawr: ANIFAIL

Chwefror: ARWR

Mawrth: DYDD SADWRN

Anfonwch eich llythyron gyda'ch enw, eich hoed ac enw eich hysgol cyn diwedd y mis priodol i:

Cystadleuaeth Llythyr

CIP

SWYDDFA'R URDD

ABERYSTWYTH, DYFED SY23 1EN

Hefyd os hoffech archebu CIP yn fisol, anfonwch i'r cyfeiriad uchod. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich llythyrau!

Yn gywir,

Ciper



CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, Ionawr 6, yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, nodwyd fod amryw o'r aelodau yn wael a chyfeiriwyd yn arbennig at Gwynn Davies (bardd y Clwb) a Bobby Williams, y ddau wedi bod am gyfnod yn yr ysbyty. Dymunodd y llywydd, Evan Parry, adferiad llwyr a buan iddynt, a blwyddyn newydd dda i bawb.

Cyflwynwyd siaradwr y noson, Emyr Jones, yn ddeheuig, ffraeth a chwrtais gan y cadeirydd, John Roberts Williams, a chafwyd anerchiad hwyliog a difyr ar un o hen gymeriadau'r Waunfawr. Wedi trafodaeth fywiog ac ambell stori frith o'r llawr, diolchwyd i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson, ac i'r siaradwr yn arbennig, gan Meurig Evans.

Cyn cloi, nododd y llywydd bod Clwb Eryri ar fin dathlu ei ben-blwydd yn ddeugain oed ac mai priodol fyddai trefnu gweithgaredd(au) i danlinellu'r ffaith. Roedd cefnogaeth yr aelodaeth i'r syniad yn amlwg yn frwd a phenderfynwyd cael trafodaeth bellach ar y mater yn y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Chwefror 3. Y siaradwr ar y noson fydd Dei Tomos, Nant Peris, gyda'r Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon, yn y gadair.

I. Huws-Roberts

DRAENOG



Peth trist yw dynion canol oed yn rhedeg ar ôl 'ieuenctid coll'. Gwadu hynny wnaeth dreifar JCB o'r fro pan gafodd ei ddal ar y stryd yng Nghaernarfon yn llygadu un o weithwyr del y Cyngor Sir. Tra roedd y JCB wedi arafu i gael gwell golwg ar y ferch osgeiddig, methodd y dreifar â gweld ei wraig ar ochr arall y stryd yn ceisio tynnu ei sylw! Awgrym i'w atgoffa y tro nesa' — JCB = JEST COFIA BARBARA!

POBOL Y SIOP CHIPS



Paul yn cael ei roi ar ben ffordd gan Vera a Haydn.

Bu Haydn a Vera Hughes yn cadw siop sglodion y Snowdon Valley yn Llanberis ers 24 o flynyddoedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu eu mab John yn rhannu'r gwaith gyda hwy. Wedi blynyddoedd o waith caled penderfynasant roi'r gorau iddi, ac ers dechrau'r flwyddyn mae'r busnes wedi ei werthu, a hwythau wedi symud i fyw dros dro i Llainwen Isaf. Byddant yn symud eto cyn bo hir ac yn ymgartrefu yng Nghaernarfon. Dymunwn yn dda iddynt. Bachgen lleol yw'r perchennog newydd hefyd. Cafodd Paul Jones ei fagu yn y pentref, ac mae'n dychwelyd i Lanberis ar ôl treulio rhai blynyddoedd yn y Fyddin. Estynnwn groeso cynnes iddo, a dymunwn yn dda iddo yn y siop.

EISTEDDFOD MÔN 1995

GŴYL Y LLYS — Mehefin 10fed, 1995

DRAMA:

Cystadleuaeth perfformio drama neu gomedi na chymer fwy na 40 munud. Mae dwy gategori yma — un Agored ac un i leuenctid (o dan 30 oed). **Cystadleuaeth Adolygiad** o unrhyw gynhyrchiad llwyfan — cyfyngedig i leuenctid o dan 18 oed. Anfoner at Alwyn Fleming, Bryn Hafod, Penyberth, Llanfairpwll (0248) 714646.

LLENYDDIAETH:

Mae sawl cystadleuaeth yn yr adran llenyddiaeth gan gynnwys **Cadair a £100** ar y testun 'Parhad' a'r **Fedal Ryddiaith a £100** am gyfrol o waith gwreiddiol. Am ragor o fanylion ar yr adran llenyddiaeth, neu anfon eich cyfansoddiadau cysylltwch ag Islwyn Williams, Penyberth, Ponc y Fron, Llangefni (02488) 750002.

CERDDORIAETH:

Cyfansoddi Emyr Dôn. Cysylltwch ag Angharad de Bruin, Trefaldwyn, Brynteg, Ynys Môn (0248) 853035.

DYSGWR/WRAIG Y FLWYDDYN:

Cysylltwch â Mared Lewis Roberts, 34 Tyddyn Isaf, Porthaethwy, Ynys Môn (0248) 716073.

Edrychwch allan am ragor o ddyddiadau i'r nodi a digwyddiadau'r Eisteddfod yn ystod yr wythnosau nesaf.

COFIWCH, MAWRTH 1af — ANFONWCH YN BRYDLON

18 MLYNEDD YN ÔL

Rhifyn Chwefror 1977 oedd rhifyn pen-blwydd cyntaf yr Eco. 'Mae'r babi blwydd wedi rhoi oriau o fwynhad a phleser i gannoedd yn yr ardal a sawl un ym mhellafoedd byd.'

Ar wahân i'r cyfeiriad hwn at ben-blwydd y papur, neilltuwyd y ddalen flaen i drafod hynt y torgoch yn llynnoedd Peris a Phadarn yn sgil y gwaith a wnaed ynglŷn â chodi'r orsaf drydan yn Ninorwig. Rhoddwyd canmoliaeth i ymdrechion y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan i ddiogelu'r pysgod hyn. Roedd rhai o'r torgochiaid yn cael eu trosglwyddo o Lyn Peris i Ffynnon Llugwy uwchben Dyffryn Ogwen.

Aderyn oedd yn cael sylw yng ngholofn newyddion Tan-y-coed, gan fod y cudyll coch wedi ei weld yn yr ardal ddechrau'r flwyddyn.

Roedd sôn yng ngholofn Llanberis am gyfarfod sefydlu'r Parchg Huw John Hughes yn weinidog rhan amser yng Nghapel Jerwsalem.

Roedd gohebydd Nant Peris yn llongyfarch Dei Tomos am ei raglen Disgo yn ystod mis Ionawr. Ai dyna ddechrau gyrfa ddarlledu Dei?

Wyddech chi bod yna 19 o siopau a 4 tŷ tafarn yng Nghwm-y-glo yn 1899? Dyna'r wybodath a anfonwyd i'r papur gan un o'r ddarlennwyr. Rhoddwyd enwau'r siopau a'r hyn a werthid ynddynt.

Yn sgil sôn am gynhyrchiad Cwmni Drama Llanberis, 'Llaeth a Mâl', cafwyd peth o hanes y ddrama yn Llanberis. Cafwyd hefyd hanes ffurfio Cwmni Drama Pontrhythallt yn 1921. Mewn pymtheng mlynedd rhwng hynny a 1936 roedd y Cwmni hwnnw wedi cyflwyno 32 o ddramâu, a chynhwyswyd penillion oedd yn rhestru enwau pob un ohonynt! 'Empire Pool Llanrug' oedd pennawd y prif stori'r dudalen chwaraeon. Stori am agor neuadd ar gyfer neidio ceffylau ar Fferm Bryn Afon oedd hi. Roedd y gystadleuaeth gyntaf newydd ei chynnal yno.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



CHWILOTA

NUNLLE



Mae'n syndod gymaint o wahanol bethau sydd i'w cael yn eich Co-op lleol — ar wahân i'r nwyddau arferol. Lle felly ydi Co-op Llanrug; llawn nwyddau gwahanol (hysbyseb am ddim!), a llawn sgysiau diddorol hefyd, i'r rhai sydd ag amser i stwyrion yno. Dyna ble ces i sgwrs â hogia glo Llanberis sy'n 'cario allan' o'r Co-op. Synnu roedd Elwyn Hughes mai ar Foel Eilio roedd safle 'unlle', ac yntau wedi arfer credu mai ar Foel Cynghorion yr oedd. Mae i'w gweld yn glir oddi ar lwybr yr Wyddfa, sef y llwyfan bychan o dir gwastad ychydig yn is na chopar Foel. Hwnnw yw 'nunlle'. Rydwi'n derbyn ei ffeithiau — os na all rhywun arall o'r darllenwyr roi manylion gwahanol.

Ac wrth sôn wrth Iwan Roberts, y golygydd, am y wybodaeth newydd hon am 'nunlle', cofiodd yntau am gofnodion iddo i'w darllen rhywdro yn yr Archifdy yng Nghaernarfon yn trafod anghydfod ynglŷn â thiroedd ar y grib rhwng Moel Cynghorion a Moel Eilio. Roedd yn credu mai anghydfod rhwng dau dirfeddianwr oedd yr achos, ond gallai fod yn anghydfod rhwng plwyfi hefyd. Sail y ddadl oedd fod un o'r partïon yn hawlio mai'r wahanfa ddŵr oedd yn ffurfio'r terfyn, sef y grib ar draws o Foel Eilio, y Foel Gron, y Foel Goch a Moel Cynghorion. Roedd y parti arall yn honni mai hen glawdd pridd ar lethrau Moel Eilio, ac ar draws Cwm Dwythwch i Fwlch Maesgwm oedd y terfyn.

Mae'n ddiddorol nodi fod yr hen glawdd pridd hwn wedi cael sylw gan archaeolegwyr. Mae rhannau o'r hen glawdd a ffos yn parhau'n weladwy ar Bryn Mawr, llethrau gogleddol Moel Eilio, a thua chwarter milltir o'r copa. Pan gafodd ei archwilio yn ôl yn y 1950au cynnar, roedd yn mesur tua 8 troedfedd o led a thua dwy droedfedd a hanner o uchel, gyda ffos ar ei ochr ddwyreiniol. Gellid ei ddilyn, y pryd hynny, am rhyw filltir i'r

gogledd. Ymddangosai wedyn ar draws Bwlch Maesgwm, a chredai'r arbenigwyr mai rhan o'r un clawdd ydoedd. Y gred yw mai terfynau hen hafotai canol oesol a ddangosid gan y clawdd. Yn y *Record of Caernarvon* am 1352, enwir y pedair hafoty hon: *Crombroinok Hir* (sef Cwm Brwynog), *Helvaylgayth* (Helfa'r Aelgerth), *Vayshcom* (Maesgwm) a *Havot Grynwothok* (Hafod Dwythwch).

Tybed a fu dadlau ynglŷn â therfynau yr hen hafotai hyn, ac i'r ddadl aros ar gof gwerin. A oedd un man arbennig na allai unrhyw un ei hawlio? Ac ai hwnnw a ddath i gael ei alw yn 'nunlle'?

HEL ACHAU

Yn ystod y mis diwethaf derbyniais geisiadau gan bobl yn ceisio olrhain hanes rhai o'u cyn-deidiau a fu'n byw yn y fro. Daeth y cais cyntaf drwy law wardeiniaid Eglwys Llanrug, a gawsant lythyr o Unol Daleithiau America yn holi hynt teulu a ymfudodd i'r America bron i ganrif a hanner yn ôl. Dyma gyfnod y mudo mawr yn ystod 1840au y ganrif ddiwethaf, pryd y gadawodd cannoedd o deuluoedd ardal y chwareli i geisio bywyd newydd dros y môr.

Ond yn ddiweddarach na hynny yr ymfudodd Owen Williams o Fwlch Gwnnog, Cwm-y-glo i'r America, oherwydd mae cofnod o'i briodas yn Eglwys y Plwyf, Llanrug, ar Fedi 3, 1853. Ymfudodd Owen i'r America. Nid oes sicrwydd a wnaeth ei wraig ei ddilyn, oherwydd bu hi farw yng Nghymru. Eu mab hynaf, Owen arall, oedd taid yr ymholwr, sef Joseph Williams, Lancaster, California. Mae'n ddiddorol nodi iddo gyfeirio ei lythyr i 'The Parish Church of Banus byme, Llanrug'. Beth tybed yw'r 'banus byme'? Pan fydd yr ymchwiliadau ar ben, efallai y cawn wybod. Hyd yma rwyf wedi darganfod enwau brodyr yr Owen o Fwlch Gwnnog, ac enwau ei rieni, ond mae angen mwy o waith ymchwil. Os oes rhywun o'r

darllenwyr yn credu fod cysylltiad rhyngddynt â'r teulu hwn, yna rhwch alwad.

Mae'r ail gais yn holi am hynafiaid a fu'n byw yn Llanrug, Llanberis a Dinorwig, sef teulu Braich, Dinorwig. Mae Gwilym Roberts, Llanberis, eisoes wedi gwneud peth gwaith ymchwil i hanes y teulu hwn yn Llanberis — mae'n ymddangos eu bod yn aelodau cynnar yn y Capel Coch, ond iddynt symud i Ddinorwig amser sefydlu'r Achos yno tua 1825-25. Unwaith eto, os oes rhywrai yn gwybod rhywfaint o hanes 'Teulu'r Braich', Dinorwig, byddai Gwilym Roberts neu finau yn falch iawn o glywed gennych.

Cofiwch anfon eich sylwadau neu ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (ffôn: 01286 673515).

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

Alwyn a Sarah Jones


**RACCA
PENISARWAUN**

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**



ANTUR WHUMFAWR

**SIOP GREFFATU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR**

Basgedi Blodau Sych ★ Siwti

Jams ★ Briwgig ★ Siampw,

Clustogau ★ Ewyn Baddon

Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

Bistro
43 - 45

Stryd Fawr

LLANBERIS. Ffôn 871278

Rhwng Ynys Môn a Pharis

Does unlle gwell i'w dewis

Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,

Na'r Bistro yn Llanberis

'Un funud fach . . .'

Y DDESG

Roedd y dodrefnyn cyntaf i mi ei brynu erioed yn dipyn o fargen. Pymtheg punt gostiodd y ddesg honno. Go brin ei bod werth mwy na hynny heddiw, ond cafwyd defnydd da ohoni, ac fe wnaiff y tro am flynyddoedd eto gobeithio.

Ond nid oeddwn mor siŵr ar y cychwyn i mi gael bargaen. Fy nhad sylwodd ar y ddesg mewn warws dodrefn ail-law. Roedd hi'n fudr, yn llwch a baw drosti, â golwg ofnadwy arni. Ond mynnai Dad ei bod yn ddesg bren gadarn ac y byddai fel newydd cyn pen dim. Rywsut roeddwn yn amau hynny, ond fo oedd yn iawn. Aed ati i drin y ddesg, ei chrafu a'i llyfnhau, ei golchi a'i sgwrio nes ei bod yn werth ei gweld. Ac nid yw fawr gwaeth erbyn hyn, ond bod angen tacluso tipyn arni bob hyn a hyn er mwyn ei gweld o gwbl dan yr holl bapur a llyfrau sy'n ei gorchuddio.

Fe lanhawyd y ddesg unwaith a'i thacluso drosodd a throsodd wedyn. Mi fentra i gymharu hynny efo'r hyn sy'n digwydd ym mywyd y Cristion.

Fel yr hen ddesg fudr honno, mae golwg ofnadwy ar ein bywydau ninnau. Mae ein methiant i garu Duw a chadw ei orchymynion yn golygu ei fod Ef yn ein gweld wedi ein gorchuddio gan lwch a baw. Nid ydym yn hardd yr olwg iddo Ef. Ond mynnodd Duw weld gwerth ynom er gwaethaf ein beiau i gyd. Anfonodd ei Fab Iesu Grist i farw drosom ar groes Calfaria. Mae ein holl feiau ni wedi eu gosod arno Ef. Ac os derbyniwn ni'r gwahoddiad i gredu yn yr Iesu, mae Duw yn ein glanhau yn llwyr ac yn ein hystyried ni yn lân a di-fai. Un waith am byth y cawn ein cyfrif yn ddigon da yng ngolwg y Duw Mawr.

Ond fel y ddesg, mae angen ein tacluso ninnau'n barhaus. Er credu yng Nghrist, nid oes neb ohonom yn llwyddo i fyw yn berffaith. Mae llanast i'w glirio o hyd. Ac wrth i ni gyfaddef ein beiau o ddydd i ddydd mae gan Dduw faddeuant a nerth i ni fyw yn well er ei fwyn.

Gofalwn ein bod wedi ein glanhau ac yn cael ein tacluso.

JOHN PRITCHARD

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Codi Arian: Cynhaliwyd noson 'Caws a Gwin' ym Mhenbont, Llanrug, ar nos Fercher, 23 Tachwedd, i godi arian tuag at yr Ysgol Feithrin. Ar y 6ed o Ragfyr cynhaliwyd disgo yn yr Ysgol Gynradd a llwyddwyd i godi dros £200 rhwng y ddwy noson. Diolch i bawb a gefnogodd y ddau achlysur. Hoffai'r Ysgol Feithrin ddiolch hefyd i staff Penbont am gyfrannu arian y Bingo a gynhaliwyd tuag at yr Ysgol yn ddiweddar.

Cyngerdd Nadolig: Ar y 7fed o Ragfyr gwahoddwyd trigolion Hafan Elan draw i'r Ysgol Feithrin i weld y plant yn cymryd rhan yn eu Cyngerdd a chawsant wledd i'r glust a'r llygad. Cynhaliwyd perfformiad i'r rhieni ar Ragfyr yr 16eg. Diolch i'r staff am eu gwaith gyda'r plant.

Parti Nadolig: Cynhaliwyd partiön 'Dolig yr Ysgol Feithrin' ar y 12fed a'r 15fed o Ragfyr ac fe ddaeth Siôn Corn draw gyda llond sach o deganau i'r plant. Bu Mr Islwyn Jones yn garedig iawn yn tynnu lluniau'r plant gyda Siôn Corn — diolch yn fawr iawn.

Dathlu 21ain Oed: Eleni bydd yr Ysgol Feithrin yn dathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed. Gobeithiwn y daw Martin Geraint ac Wcw draw i dathlu gyda ni yn ystod y gwanwyn.

Merched y Wawr: Cyfarfu ar Ionawr 10fed yn neuadd yr Ysgol Gynradd Llanrug ac estynnwyd croeso cynnes i'r holl aelodau gan y llywydd, Menna Williams. Dymunwyd blwyddyn newydd dda a dedwydd i bawb. Cytunwyd fod y gangen i gynnal caffi yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ar Sadwrn, 4ydd Mawrth.

Y gŵr gwadd oedd Sam Roberts, Warden y Parc Cenedlaethol, a threuliwyd orig hynod o ddifyr yn ei gwmni. Dangoswyd sleidiau penigamp ar fynydd gan gychwyn o'r Wyddfa, i begwn y gogledd, creigiau California, drwy Gwm Hyfryd, Patagonia, gan orffen yn ôl yng nghwmni bywyd gwyllt yr Wyddfa. Diolchwyd iddo am noson adloniadol iawn gan Mary Roberts.

Diolchodd Mrs Beryl Thomas i Helen, Sioned a Mary am y baned dda. Tynnwyd y raffl gan Sam Roberts a'r enillydd oedd Ann Gibbins.

Ar Chwefror 14eg bydd Mr A. W. Williams, Gwasanaeth Tân Gwynedd, yn rhoi cyngor ar 'Diogelwch yn y Cartref', cofiwch ddod. Bydd croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

Marwolaethau: Yn dawel yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, ar 28ain Rhagfyr, bu farw Mrs Enid Orritt, gynt o 10 Hafan Elan, priod y diweddar Griffith Richard a mam annwyl Les a Sylvia, a nain hoffus Judith, Nigel, Cynthia, Angela a Colin. Bu'r angladd ddydd Mawrth, Ionawr 3ydd gyda'r Parchg John Pritchard yn gwasanaethu.

Ar Ionawr 1af bu farw Mrs Ellen Williams, Tremallt gynt, mam Beryl Hall ac Elwyn, a nain ei wyrion a'i wyresau.

Ar Ionawr 6ed bu farw Mrs Myfanwy Douglas Williams, Bwthyn, Ffordd yr Orsaf. Roedd yn chwaer annwyl i Buddug Williams ac Alwyn Williams, a modryb i'w nithoedd a neiaint.

Cydymdeimlwn â'r teuluoedd i gyd.

Ysgol Gynradd: Ionawr y 10fed hyd y 13eg treuliodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 bedwar niwrnod yng ngwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn, gan fwynhau eu hunain yn fawr. Cawsant brofi chwaraeon dŵr, sgio yn Nhrawsfynydd ac ambell gêm o 'bowlio deg'. Trip diddorol iawn oedd hwnnw i ogof y Brenin Arthur yng Nghoris. Ar y dydd lau cawsant weithdy drama ac hefyd y cyfle i greu masgiau Celtaidd eu hunain — campweithiau yn wir! Byddai ymweliad â Gwersyll Glan-Ilyn ddim yn gyflawn heb gael cyfle i rwyfo ar Lyn Tegid a diolch i'r drefn roedd y tywydd yn caniatáu hynny ar y dydd Gwener.

Fore Sadwrn, 15 Ionawr, bu dau dîm pêl-droed 5-bob-ochr yr ysgol yn cymryd rhan mewn twrnament pêl-droed yr Urdd. Bu i'r ddau dîm chwarae yn benigamp ac yn sicr wedi elwa o'r profiad.

Yn y prynhawn cynrychiolwyd yr ysgol mewn cystadleuaeth pêl-rwyd gan dîm o ferched blwyddyn 6. Unwaith eto cawsant hwyl fawr arni.

Nos Lun, 16 Ionawr, cynhaliwyd yr Urdd yn yr ysgol. Noson o gêmiau potas oedd hi a'r timau yn cymeryd rhan yn frwdfrydig.

Llongyfarchiadau i Urien Deiniol, Karen Evans a Gareth Roberts am wneud mor ardderchog yng nghystadleuaeth tenis yng Nghaernarfon. Dymunwn y gorau iddynt yn yr ail rownd yn Wrecsam.

Enillwyd y Clwb Cant (£30) gan Bethan Morris Jones, Ardor, Rhosgoch.

Noson Goffi: Nos Iau, 23 Chwefror, yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch fe gynhelir Noson Goffi gyda byrddau gwerthu a raffl i godi arian tuag at sefydlu'r Ganolfan newydd yn Llanrug. Ymdrech yw hon gan holl fudiadau'r pentref a thaer erfynir am eich cefnogaeth. Derbynnir rhoddion ac unrhyw gyfraniad i'r byrddau gwerthu gan swyddogion y gwahanol fudiadau. Tâl mynediad fydd 50c; Plant 20c wrth y drws.

Gwellhad: Dymunwn adferiad iechyd buan i Mr Malcolm McKinnon, Cynefin, Plas Tirion, wedi ei arhosiad yn Ysbyty Eryri. Brysiwch adref.

Rydym yn falch o ddeall fod Mrs Dona Jones, 21 Hafan Elan, yn ôl adref wedi iddi hithau fod yn ysbytai Gwynedd ac Eryri. Gobeithiwn y byddwch yn parhau i gryfhau.

Plaid Cymru: Roedd yn bleser pur cael teithio yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones nos Fercher, Ionawr 11. Aeth â ni, trwy gyfrwng sgwrs a sleidiau, gyda bws Arfon drwy wledydd Norwy, Sweden a'r Ffindir, ac yna gyda chwmni'r Seren Arian i wlad Pwyl, lle cawsom gip ar ogoniannau dinasoedd Krakov a Warsaw yn ogystal ag erchyllterau Auschwitz. Roedd pawb wedi mwynhau'r noson a diolchwyd yn gynnes i'r siaradwr gan Miss Phyllis Ellis, y llywydd. Enillwyd raffl y noson gan Megan Roberts, Gregynog.

Enillwyd y Clwb Cant — Rhagfyr: 1, Nan Humphreys; 2, Gwyndaf Jones. Ionawr: 1, Olwen Llywelyn; 2, Meirwen Lloyd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Chwefror 8fed, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch, pan fydd rhai o aelodau'r gangen yn sôn am eu diddordebau a'u hobiau. Croeso cynnes i bawb.

Nos Fercher, Chwefror 15fed, bydd Cwmni Bara Caws yn perfformio'r ddrama 'Cyw Dôl', gan Twm Miall, yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch.

Diolchiadau: Dymuna teulu y diweddar Thomas Owen, Llys Eiddon (Derlwyn gynt) ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl.

Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am Tom, tuag at gartref Llys Eiddon. Diolch i Mr a Mrs Gay a'r genod; i Dr Pamela Jones a meddygon Llanberis am eu gofal tyner o Tom. Diolch i Eirianwen a Dora; i Mr Merfyn Jones, Ifan Hefin Williams ac Albert Jones am eu gwasanaeth a Gareth Jones yr organydd. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor am drefniadau'r angladd.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

O SIAMBAR SELWYN

Oes ganddoch chi gof da? Waeth i mi gyfadde ddim, cof difrifol sy gen i, ac fel rydwi'n mynd yn hŷn, rydwi'n mynd yn fwy anghofus.

Rydwi'n cael trafferth i gofio enwau yn aml — yn enwedig rhai rwy'n gwbl gyfarwydd a'u hwynebaw. 'Dwi hefyd ar brydiau yn methu'n glir a dwyn i gof yr union air rwy'n awyddus i'w ddefnyddio, a hynny yn aml iawn wrth annerch cynulleidfa. O, ia, sobor o beth ydi cael 'blanc' o flaen cynulleidfa. Ond dyna fo 'henaint ni ddaw ei hunan,' meddai'r hen air ynte!

Beth sy'n gwneud i mi fynd ar y trywydd anghofus 'ma meddech chi? Wel, darllen yn y papur heddiw am y gŵr 'na a enillodd y loteri drwy ddefnyddio ei rif yn y lluoedd arfog. A dyma fi'n cofio'n sydyn, er mor anghofus ydw i, mai 2321359 Griffith fŷm innau am gyfnod o ddwy flynedd yn niwedd y pedwardegau. O do, mi fynnodd y brenin fy mod innau i wisgo iwniform a chael nymbar — numbar sy wedi'i selio ar fy ngho i hyd heddiw, am ryw reswm.

Rŵan, nid soldiwr oeddwn i, o na, ond un o fois y siwt las. Ia, un o hogia'r RAF. A wyddoch chi be, welais i yr un awyren tra bŷm i yn y Llu Awyr — dim ond y rhai hynny a fu'n hedfan yn achlysurol uwch fy mhen i. Sŷn am 'longwrs tir sych' — awyrenwr a'i draed ar y ddaear fu 2321359 A/C Griffith hefyd.

Yn syth o Gownti Sgwll Caernarfon yn 1946 mi ges i alwad gan frenin Prydain Fawr i fynd i West Kirby i ddysgu sut i saliwio a martsio, a sut i sticio bayonet i sach o wellt, a sut i daflu grenêd heb ladd fy hun, na lladd neb arall.

Gan fod ffrind i mi am fod yn drydanwr mi benderfynais innau ddewis mynd ar yr un cwrs, ac fe'n hanfonwyd i Melksham yn Wiltshire. Doedd gen i yr un iod o ddiddordeb yn y plygiau a'r weiers, ac mi roeddwn i wedi penderfynu methu'r arholiad terfynol yn fwriadol, oherwydd

os llwyddwn mi fyddai'n rhaid i mi wedyn bacio'r kit-bag a pharatoi fy hun ar gyfer cyfnod mewn gwlad dramor. Meddylwch o ddifri amdana i, sy mor hoff o grwydro i bellafoedd daear, yn gwrthod y cyfle i gael gweld y byd yn rhad ac am ddim. Na, roedd cael sefyll rhwng y pyst gŵl ar yr Oval Caernarfon yn fwy pleserus i mi na phyramydiau'r Aiffit yr adeg honno.

Anghofia i byth yr arholiad terfynol. Rhyw lipryn main o swyddog medalog hefo cansen yn ei law yn gofyn i mi, gan bwyntio'r gansen at glamp o 'searchlight', 'And what would you call that?' gofynnodd gyda'r acen Rydychenaidd. Roeddwn i'n barod amdano, ac meddwn yn fy acen Fethalaidd, 'I don't know the English word for it, Sir, but I know the Welsh word.' (Clyfar ynte — gwybod y gair Cymraeg am 'searchlight' a minnau rioed wedi clywed am y gair 'chwil-olau' yn 1947). 'And what is the Welsh word?' meddai'r llipryn o Sais, a gwên seimlyd ar ei wyneb.

Y gair cyntaf ddaeth i fy meddwl oedd 'buwch' a dyma fi'n poeri'r gair i'w wyneb o. 'Buwch, Syr,' meddwn a dyma fynta fel carreg ateb yn ceisio ailadrodd fy ateb i, a'i dafod o'n bwrw'i din dros ei ben yn ei geg o. 'O, bliwc is it — you're pretty hopeless aren't you?' meddai gan fy nharo ar fy ysgwydd gyda'r gansen fel petai am fy nyrchafu'n farchog yn y fan a'r lle. Oeddwn, roeddwn wedi methu'r arholiad, ac roeddwn i'n berffaith fodlon ar y canlyniad. Yr adeg honno roeddwn i yn ei ffawdheglu hi bob penwythnos o wlad y Sais i dre'r Cofis i gicio gwynt. Roedd hyn yn staen a buan iawn y trefnodd cadeirydd tîm Caernarfon, sef Capten Hughes, i mi gael cyfnewid gwersyll a dod i Landwrog ac yno y bŷm i y gweddill o fy amser yng ngwasanaeth y brenin. Byw adre ym Methel a reidio beic yn ôl ac ymlaen yn ddyddiol i Landwrog, drwy bob tywydd. Ambell fore fe gawn i lifft yn lori Wili Wmffras Ty'n Rhos, ac mi roeddwn i'n hynod o falch o hynny yn enwedig ar ddiwrnod gwyntog, gwlyb. Roeddwn i'n cael dau frecwast — un gartre hefo nhad cyn iddo gychwyn i'r chwarel, ac

un arall yn y cantin yn Llandwrog. Rhwng y ddau frecwast, y reidio beic, a'r cicio ffwtbol, roedd 2321359 A/C Griffith yn hynod o ffit yn y cyfnod hwnnw.

Dowch yn ôl at y boi na enillodd y loteri. Ys gwn i petawn i yn dewis 23, 21, 35 a 9 ynghyd â dau rif arall, a fyddwn i mor lwcus. Mi fyddwn i yn ychwanegu rhif 13 hefyd. Pam?

Wel pan es i i eistedd arholiad y sgolarship i Gownti Sgwll Caernarfon, ym mis Mai 1939, fy rhif i yn yr arholiad oedd 13. Biti medda'r teulu — hen rif anlwcus. Ond, pan ddaeth canlyniad y sgolarship — fi oedd y 13eg ar y rhestr. A byth ers hynny os bydd rhywun yn cynnig tocyn raffl i mi rwy'n dewis rhif 13. Rwy'n dal i ddisgwyl gwobr hefyd!

O, wel, y loteri amdani hefo'r rhifau 23, 21, 35, 13 a . . . wel 32 am wn i. Croeso i unrhyw un ohonoch ddewis y rhifau os dymunwch, ac os daw lwc i chi hefo nhw — wel cofiwch amdana!

O.N.: Rwy'n digwydd sgwennu'r ysgrif hon ar ddydd Gwener y 13eg o Ionawr. Lwcus ta anlwcus? Pwy a wŷr?

CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON

Erbyn hyn mae'r Clwb yng nghanol cyfnod prysur iawn. Fel mae pob noson clwb yn tystio mae cryn asbri a brwdfrydedd yno. Bydd Myfanwy Harper yn falch fod y clwb yn mynd o nerth i nerth. Mae cyfraniad Glyn a Gwyneth yn cael ei werthfawrogi, ac mae eu hegni a'u brwdfrydedd — a hynny gyda gwên — yn amlwg.

Cyfnod paratoi ar gyfer y Rali Flynyddol yw hi erbyn hyn. Yn Llanrwst y bydd y Rali eleni, gyda'i hystod eang o weithgareddau. Mae'r drws yn agored o hyd i aelodau newydd ddod i'r cyfarfodydd ar nos Fawrth yn Neuadd Goffa Bethel. Eisoes cynhaliwyd yr Eisteddfod a daeth llwyddiant i Lyndsey Parry a Nia Land. Daeth Lyndsey i'r brig am ganu dan 16, a chyfunodd y ddwy i gipio tlws y danu gwerin, ac ail ar y ddeuawd.

Rhaid cofio fod yna elfennau amaethyddol hefyd i weithgaredd y clwb. Llwyddodd pump o'r bechgyn



Yr aelodau yn paratoi ar gyfer y llu gweithgareddau.

— Eurwyn Jones, Tudur Parry, Aled Jones, Huw Tomos ac Iwan Hughes — i gipio Cwpan Penywern yn y

gystadleuaeth barnu ŵyn. Dymunwn yn dda i Eurwyn Jones yn Seland Newydd wrth gwrs.



Criw y barnu ŵyn. Ydyn nhw'n gw'bod mwy na'u tadau?

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc


**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Enillwyr Tynfa Fisol am fis Rhagfyr oedd — £40: Sarah Hughes, Bron Gwna (49); £25: Leti Williams, 'Refail' (22); £15: Beti Roberts, Morfa (27). Tynnwyd hefyd y canlynol am wobrau £10 yr un: Derlwyn Roberts, Siobhan Atkinson, Harriet Roberts, Peter Hughes, Dewi Jones, Doris Mutenfeld, Richard Myrddin, William Edey Saran Thomas, Jean ac Owie Williams.

Enillwyr tynfa mis Ionawr oedd — £40: Albert Jones, 5 Erw Wen (62); £25: Glyn Evans, Llwyn Alice (30); £15: Margaret Hansworth, The Barn

(15). Diolch am eich cefnogaeth.

Mae pwyllgor Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn dymuno blwyddyn newydd dda i bawb.

Parti Nadolig: Cynhaliwyd parti Nadolig yr oedolion yng Nglangwna Bach ar nos Sadwrn wythnos cyn y Nadolig. Enillwyd gwobrau y raffl gan Mary Henderson, Bryn Griffiths, Deiniol Hughes, Shaun Atkinson, Dafydd Lodj a Huw Ceiriog.

Parti'r Plant: Daeth Siôn Corn heibio'r pentref ychydig yn gynnar, ar nos Iau cyn y Nadolig, oherwydd natur dda a charedig y plant sy'n

byw yng Nghaeathro, Rhos Bach a'r cyffiniau. Aeth pawb adref efo boliau llawn ac anrheg cynnar!

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Chwefror:

5: Parchg Trefor Jones (2)
12: Parchg Iorwerth Jones-Owen (2)
19: Parchg W. R. Williams (2)
26: Parchg Emrys Thomas (2)

Ynad Heddwch: Llongyfarchiadau i Carey Jones, Tryfan, ar ei hapwyntiad diweddar fel Ynad Heddwch. Hi yw'r ail yn y pentref rwan.

Cwis Llyfrau: Llongyfarchiadau i Geraint Roberts, Cefn Rhos Isaf am fod yn aelod o dîm buddugol Ysgol Gynradd Bontnewydd yn y Cwis Llyfrau.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Llongyfarchiadau i Delyth Tomos, Tan-y-cae, ar ei llwyddiant mewn arholiad y Brifysgol Agored.

Llongyfarchwn hefyd Ann a Colin Seynor, 2 Tai Tan-y-coed, ar enedigaeth eu mab cyntafanedig. **Croeso** i deulu newydd sydd wedi dod i fyw i Tai Bryngwyn. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

DRAENOG



Does eisiau amynedd hefo'r becars 'ma deudwch? Clywais hanes un lleol wedi mynd yr holl ffordd i Ddolgellau i brynu heffer ar gyfer ei dyddyn. Yn amlwg roedd wedi cael bargaen ac ar frys mawr i gael yr anifail adref. Yn anffodus wedi cyrraedd adref darganfuwyd eu bod wedi dod a'r anifail anghywir a rhaid fu ei ddychwelyd i ardal Y Bala. Wyddom ni a fydd pris y bara yn codi i dalu am yr holl deithio!

Gymru yn fuan yn yr haf, bydd Bryn yn sicrhau bod y band yn chwarae mewn o leiaf bedair ysgol leol. Bydd hefyd yn cynnal gweithdai cerddorol i'r ifanc yng Nghaernarfon, Llanberis a Bethesda, ynghyd â chyngerdd di-alcohol yn Waunfawr i godi arian i Antur Waunfawr ac Ysgol Feithrin Waunfawr. Mae trefniadau'r cyngerdd hwnnw i'w gwneud eto.

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

DIWYLLIANT CEUNANT

Mae 1995 wedi cychwyn, â phawb yn ddisymud wedi gŵyl y Nadolig. Ond mae'r flwyddyn newydd wedi cychwyn gyda chlec yn ardal Ceunant. Wedi pedair blynedd brysur yn y byd cerddoriaeth Prydeinig ac Ewropeaidd, a cherddorion o bob diwylliant a lliw yn troedio drwy'r pentre Ceunant, dyma gyfle i fwrw golwg dros beth o'r llwyddiant sy'n deillio o gefn gwlad.

Cychwynwn gyda'r grŵp Rastaffariaid 'One Style MDV' sydd wedi cynhyrchu dwy LP ar label Crai/Sain. Caiff ei glywed yn gyson ar y radio ar hyd a lled Ewrop. Mae'n teithio trwy ddinasoedd Lloegr, ac yn canu yn Gymraeg hefyd. Ymddangosodd ar nifer o raglenni teledu, a chynhyrchiad fideo o'r gân Gymraeg 'Sustem ar y Diawl' gan gwmni 'Criw Byw' o Gaerdydd.

Symudwn ymlaen at 'Kava Kava' — 'y mwngals Celtaidd' fel mae Bryn Ceunant yn eu galw. Mae nhw hefyd wedi cael llwyddiant ar ôl blasu'r ysbrydoliaeth sydd i'w gael yn Ceunant, ac wedi arwyddo cytundeb i wneud dwy LP gyda chwmni Delirium Record o Loegr.

Ond y prif newyddion yw fod 'Recordiau Gwynfryn', label recordio newydd, wedi ei ffurfio yn y Ceunant gan Bryn. Ar ben hynny mae wedi arwyddo i'r label y grŵp 'End of Culture?' sydd erbyn hyn yn cael ei reoli ganddo o Ceunant. Nid band bach yw hwn, gan ei fod eisoes wedi cefnogi grwpiau fel Jesus Jones, The Cult a Ziggy Marley ac wedi teithio Ewrop yn gyson, gyda pherianwyr UB40 yn rhoi help llaw iddo. Ond Ceunant yw eu cartref



Benco, Debbie, Ian, Ric (a Phil yn y cefn efo'r cap) — aelodau 'End of Culture?'

nawr, a holl weithgareddau'r grŵp yn cael eu datblygu rhwng Llanrug a'r Waunfawr. 'Yn fy marn i, hwn yw'r grŵp i gael y neges Gymreig allan i weddill Ewrop,' meddai Bryn. 'Mae pob aelod yn dod o wahanol ddiwylliant — Phil, y canwr, o Jamaica; Benco, gitarydd, o Barbados; Rick, gitarydd ac allweddellau, yn Ffrancwr o Ganada; Ian, ar y bass a'i dad yn Wyddel a'i fam o'r Philipinnes ac wedi ei fagu yn America; Debbie, ar y drwm a'i theulu o'r Dominican Republic; a minnau, y rheolwr, yn Gymro!' Dyna gymysgfa, os bu un erioed, a phob un yn dalentog dros ben.

Un o uchafbwyntiau'r grŵp oedd y daith 'The Serious Road Trip' i godi arian i blant amddifad Rwmania. Perfformiwyd ar hyd a lled Ewrop. Roedd y band yn teithio

mewn bws dau-lawr goch yr holl ffordd. Roeddent yn yr hen Iwgoslafia pan oedd yr helynt a'r rhyfel cartref yn cychwyn gyda'r geiriau 'Don't Shoot' ar ochr y bws.

Mae eu penderfyniad i recordio a threfnu eu holl weithgaredd o Gymru yn adlewyrchu eu teimlad dwfn am ein hiaith a'n diwylliant sydd, yn eu barn hwy, heb gael eu hadlewyrchu yn iawn ar unrhyw lefel ym Mhrydain nag Ewrop. Y gobaith yw na fydd yn hir iawn cyn iddynt fod yn enw mawr yn y byd cerddorol, ac y byddant yn cyhoeddi y neges o Gymru am ein safbwynt diwylliannol ni.

Bydd eu CD a thap o chwe cân ar gael tua'r Pasg efo'r teitl 'Jungle Relations', ar label Recordiau Gwynfryn. Bydd yn cael ei gyhoeddi gan Sain. Ynghlwm â thaith trwy

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:

C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

asiantaeth



budd-daliadau

Tâl Mamolaeth Statudol

Cwestiwn: Dechreuais weithio i gyflogwr ym mis Mai 1994 — nid wyf yn talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Rwy'n disgwyl babi ar 23ain o fis Ionawr 1995. A fyddaf yn gallu cael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)?

Ateb: Na. I fod yn gymwys i dderbyn Tâl Mamolaeth Statudol rhaid eich bod wedi ennill o leiaf £57 yr wythnos, ar gyfartaledd, dros yr wyth wythnos yn gorffen gyda'r 15fed wythnos cyn y disgwylir eich baban. I fod yn gymwys rhaid eich bod wedi gweithio a thalu o leiaf 26 o gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y gyfradd safonol yn ystod y 66 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir eich baban. Ond, gallech dderbyn Lwfans Mamolaeth o'r DSS. Gofynnwch i'ch cyflogwr am ffurflen SMP1, sy'n esbonio pam na allech gael Tâl Mamolaeth Statudol oddi wrtho. Ewch i nôl ffurflen gais MA1 o'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol ac anfonwch y ddwy i'r swyddfa honno.

Cwestiwn: Rwy'n disgwyl babi ymhen 12 wythnos. Mae fy nghyflogwr wedi dweud nad wyf yn gymwys i gael Tâl Mamolaeth Statudol gan nad wyf wedi

gweithio iddo ond ers 10 mis. Rwy'n talu Yswiriant Gwladol ac mae fy nghyflogwr yn £140 yr wythnos. Nid wyf wedi bod yn sâl ers o leiaf 6 mis. Oes yna unrhyw fudd-dâl y gallaf wneud cais amdano?

Ateb: Er mwyn derbyn Tâl Mamolaeth Statudol gan eich cyflogwr, rhaid eich bod wedi gweithio iddo am o leiaf 6 mis yn ddi-dor erbyn y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir eich baban. Rhaid i chi hefyd ennill mwy na £57 yr wythnos, ar gyfartaledd. Yn eich amgylchiadau chi, dylai eich cyflogwr dalu Tâl Mamolaeth Statudol i chi.

Cwestiwn: Am faith o wythnos y telir Tâl Mamolaeth Statudol? A faint o Dâl Mamolaeth Statudol fyddaf yn ei gael? Rwyf wedi bod yn gweithio yn llawn amser i'r un cyflogwr ers pedair mlynedd

Ateb: Telir Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) am hyd at 18 wythnos ond ni all ddechrau yn gynt na'r 11eg wythnos cyn y disgwylir eich baban ac nid yn hwyrach na'r wythnos yn dilyn y geni. Unwaith i'ch SMP ddechrau, ni allwch gael SMP am unrhyw wythnos pan fyddwch yn gweithio i'ch cyflogwr.

Cewch 90% o'ch enillion ar gyfartaledd am y chwe wythnos gyntaf, yna fe gewch y gyfradd safonol o Dâl Mamolaeth Statudol am 12 wythnos.

Mae taflen FB8 Wales 'Babanod a Budd-daliadau', sydd ar gael o'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol, yn esbonio'r Tâl Mamolaeth Statudol ac yn rhoi mwy o wybodaeth ddefnyddiol i famau sy'n disgwyl a mamau newydd.

Taflenni Cyngor Budd-daliadau

Cwestiwn: Rwyf eisiau gwneud cais am fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol. Allwch chi ddweud wrthyf pa daflenni y dylwn i eu defnyddio, a lle gallaf eu cael?

Ateb: Dylech ddechrau trwy gael golwg ar y gyfres o daflenni a anelwyd at grwpiau penodol o gwsmeriaid. Mae'r gyfres yn dechrau gyda FB2 Wales — 'Pa Fudd-dâl'. Mae hon yn rhestru'n fyr yr holl fudd-daliadau sydd ar gael ac yn rhestru'r taflenni eraill sy'n rhoi gwybodaeth fwy manwl.

Mae taflenni eraill yn y gyfres yn rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i grwpiau arbennig — er enghraifft mae'r FB6 Wales yn sôn am bobl sy'n ymddeol, FB28 Wales yn esbonio budd-daliadau ar gyfer pobl

sy'n sâl neu'n anabl, ac FB27 Wales yn sôn am fudd-daliadau ar gyfer rhai sydd yn magu plant.

Mae'r holl daflenni ar gael o'ch swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol lle mae'r staff yn gallu esbonio pa fathau eraill o wybodaeth a chyngor sydd ar gael o'r Asiantaeth Budd-daliadau. Mae rhai o'r taflenni ar gael hefyd yn eich Swyddfa Bost leol.

Cwestiwn: Rwy'n weithiwr cymunedol, a hoffwn dderbyn y taflenni a'r posteri diweddaraf ynglŷn â budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol. A yw hyn yn bosibl?

Ateb: Mae'r 'Benefits Agency Publicity Register' ar gyfer pobl sydd am dderbyn y taflenni a'r posteri diweddaraf ynglŷn â budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol. Mae tua 80,000 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, yn amrywio o feddygon a gweithwyr cymdeithasol i weithwyr cyngor a chymunedol.

Er mwyn cynnwys eich enw ar y rhestr hon, ffoniwch 0645 540 000 (Saesneg yn unig) gan roi eich enw, cyfeiriad a'ch galwedigaeth. Bydd rhaid talu am yr alwad ffôn ar y gyfradd leol.

I gael mwy o wybodaeth am y gwasanaethau hyn ac am y budd-daliadau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau chi, gofynnwch yn eich Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol. Mae'r cyfeiriad a'r rhif ffôn o dan 'Social Security' neu 'Benefits Agency' yn eich llyfr ffôn. Gellwch hefyd ffonio'r llinell ddi-dâl Nawdd Cymdeithasol ar 0800 289 011 (Cymraeg) neu 0800 666 555 (Saesneg).

DRAENOG



Cafodd gŵr amlwg iawn ei holi ar raglen chwaraeon Radio Cymru dro'n ôl am y gêm rhwng Nefyn a Llanberis y pnawn hwnnw. Rhoddodd ddisgrifiad manwl o ail hanner y gêm ond dim ond un gair oedd ganddo i ddisgrifio'r hanner cyntaf — 'cyfartal'. Tybed na fyddai geiriau un o'i ganeuon — 'Mistar Pwy a Wyr?' — wedi bod yn ateb mwy gonest? Clywais mai yn ystod egwyl hanner amser y cyrhaeddodd o'r cae. 'Cyfartal' wir!

PLASTIG FFANTASTIG

Bydd 'Plastig Ffantastig', drama a gomisiynwyd gan TARGED, Cyngor Hyfforddiant a Menter Gogledd-orllewin Cymru, yn teithio ysgolion uwchradd yr ardal, gan gynnwys Ysgol Brynrefail, yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd y ddrama a sgrifennwyd gan Emlyn Gomer yn ceisio darganfod atebion i gwestiynau a datrus problemau sy'n wynebu pobl ifainc wrth iddynt ddod i benderfyniad ynglŷn â'u gyrfa i'r dyfodol.

Trwy gyfuno comedi ac adloniant ynghyd â thipyn o ddirgelwch, bydd y cyflwyniad bywiog gyda'i gymeriadau lloerig a lliwgar, a chwaraeir gan Emlyn Gomer,



Bethan Henri a Iwan Stanley Jones, yn cyflwyno'r syniad o sut y gall y credydau hyfforddi newydd gynorthwyo'r bobl ifainc i ddarparu ar gyfer eu dyfodol. Bydd y perfformiad hefyd yn dangos sut y gall gwybodaeth a phrofiad alluogi pobl ifainc i wneud penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r math o hyfforddiant a gwaith sy'n eu diddori hwy.

Heliwch eich traed am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470**



Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559



**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG

Caernarfon 673513



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Diolch: Dymuna Mrs M. G. Williams, Llain yr Ardd, ddiolch o galon i'w theulu a'i holl ffrindiau a anfonodd anrhegion a chardiau Nadolig a'r flwyddyn newydd iddi. Mae'n gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn ac yn diolch yn fawr i bawb.

Raffl Nadolig y Neuadd: Enillwyr y raffl oedd — 1, Mrs W. Davies, Llanellw; 2, Mr R. J. Murphy, Bangor; 3, Dylan Hughes, 11 Stad Eryri, Bethel; 4, Jean, Wenallt, Bethel; 5, Meilyr Emrys, Bethel; 6, M. J. Roberts, Llangoed; 7, Mrs Hughes, Faenoldy, Y Felinheli; 8, Lyn Roberts, Bron Gwynedd, Bethel; 9, Gwyn Jones, Minffordd, Bethel; 10, Glan Gors, Bethel; 11, Brian Jones, Perthi Isaf, Penisarwaun. Diolch i bawb am gefnogi'r raffl.

Clwb 100 yr Ysgol Gynradd: Enillwyr mis Ionawr oedd — £20: Mrs Christine Griffith, 17 Bryn Môr, Y Felinheli (2); £15: Mr Sam Davies, Hafan Deg, Cefn Cynrig (106); £10: Mrs Joyce Gaffey, 3 Bro Eglwys (21); £7: Gwenan Williams, Arfon House (97); £5: Mrs Rita D. Williams, Elan, Tan-y-cae (78). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Enillwyr Clwb 200 y Neuadd am fis Rhagfyr oedd — £20: Wyn Morris, Fachell (136); £10: Glenys Thomas, Islwyn, Saron (221); £5 yr un: Katherine Jones, Y Ddôl Wen (21); Gwyneth Jones, Y Fachell (72); Sue Williams, Gwylanod, Saron (31); Heather Hughes, Coed Bolyn (5); Judith Jones, Gwelfor, Saron (201);

Eiriona Williams, 7 Bro Rhos (208); Jane Elis, Glenydd, 14 Y Ddôl (198); Idris Morris, Fachell (53).

Y Gymdeithas: Nos Fawrth, 17 Ionawr, yn festri Bethel cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni'r Parchg Iorwerth Jones-Owen, Caernarfon, ar y testun 'Codi Stêm' a chafwyd hanesion difyr am gymeriadau a weithiai i Gwmni Rheilffordd y Cambrian ac am atgofion Mr Owen o'i gyfnod pan fu'n gweithio yn Stesion Afonwen cyn mynd i'r coleg. Diolchwyd i Mr Owen gan Mr John Owen.

Clwb y Rhos: Nos Lun, Ionawr 9, ymwelodd aelodau'r Clwb a safle Segontium yng Nghaernarfon. Cafwyd noson ddiffr iawn dan ofal Neil Johnson sy'n gweithio i Gymdeithas Archaeolegol Gwynedd (ac sy'n byw yn Corra Linn) yn rhoi peth o hanes cyfnod y Rhufeiniaid yn y dref ynghyd â hanes gwahanol safleoedd hanesyddol eraill o fewn y sir. Diolchwyd i Neil ac i Owen Evans, Swyddog Addysg yr Amgueddfa, gan Mr Dafydd Williams.

Merched y Wawr: Yng nghyfarfod mis Ionawr cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni Esme Dyson. Daeth nifer o'r aelodau a hen dlysau i Mrs Dyson ddangos ei harbenigedd wrth eu trafod. Y gwestwagedd oedd Bet Owen, Mary Evans a Rita Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Eirlys Williams. Llywyddwyd y noson gan yr Is-lywydd, Mrs Gwyneth




Plant Ysgol Sul Capel Cysegr adeg eu gwasanaeth Nadolig.

Jones, yn absenoldeb Mrs Glenys Griffiths. Dymunwyd gwellhad buan i Mr J. M. Griffiths.

Cynhelir y cyfarfod nesaf

Chwefror 8fed gyda Mr Arwel Jones yn sôn am 'Y stori tu ôl i'r gân'.

Dyweddio: Llongyfarchiadau i Carys Wyn Hughes, 42 Bro Rhos, ar ei dyweddiad â Dyfed Jones, 17 Tithebar St., Caernarfon, ar ddydd Calan eleni. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu a'u ffrindiau.



Dau dîm 5-bob-ochr Adran yr Urdd, Bethel, a fu'n cystadlu ym Mangor.



Aelodau o Ferched y Wawr Bethel oedd yn cymryd rhan yn y noson Dathlu'r Nadolig yng Nghapel Cysegr.

Cwmni
TARIAN
Cyf.



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN

6 Stryd Bangor,
Caernarfon

Ffôn: (0286) 677787

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug



DRAENOG

AR GYFEILIORN

Fe glywais am rhyw gwpwl
A aeth o Fethel draw
I ochrau Clwyd i gerdded
Un Sadwrn yn y glaw.

Cyhoeddwyd ym mhlwyf Nantglyn
'Cyn hir cawn de a bwyd,'
Meddent, gan ychwanegu,
'Ble mae cerddwyr Edward Llwyd?'

'Ai Rhagfyr ynteu Ionawr?
Ai yn Nantglyn roedd y daith?
Betws yn Rhos ddywetsoch?'
Eu meddwl nid oedd ar waith.

Wir, eithaf peth yw atlas
Neu ddyddiadur onide,
I fyned ar y teithiau
A nodi'r dydd a'r lle.

Wel, rŵan Bet a Seiriol
Cyn crwydro llwybrau'n gwlad,
I gyrraedd y man cyfarfod
Prynwch cwmpawd bach go rad!

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr a Mrs Leslie Orritt, Judith, Nigel a Cynthia, Morannedd, yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain annwyl, Mrs Enid Orritt, gynt o 10 Hafan Elan, Llanrug.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, 9 Ionawr. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Trafodwyd rhai materion gan Mrs M. Latham.

Cydymdeimlwyd â Mrs J. Williams a Mrs H. Orritt yn eu profedigaethau diweddar.

Mr Peter Taylor oedd y gŵr gwadd a chafwyd sgwrs a ffilmau ganddo am ei wyliau yn yr Eidal. Gofalwyd am y lluniaeth gan Mrs Siede, Mrs Craven a Mrs Birbeck a diolchwyd iddynt, ac i Mr Taylor, gan Mrs J. Ransom. Rhoddwyd y rafflau gan Mrs Birbeck a Mrs Edwards a'r enillwyr oedd Mrs K. Jones a Mrs M. Latham. Terfynwyd trwy weddi.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 6ed o Chwefror.

Ysgol Cwm-y-glo: Blwyddyn newydd dda i bawb a diolch i chwi rieni, perthnasau a phentrefwyr am eich cefnogaeth werthfawr i ni yn holl weithgareddau'r ysgol cyn y Nadolig.

Cyflwynwyd £75 o gasgliad y cyngerdd Nadolig i gronfa Steffan Price Jones, Llanrug.

Carem ddiolch i Margaret Jones,

Gwesty'r Snowdon, am ei haelioni ar noson canu carolau o amgylch y pentref. Cyflwynodd arian y cawl yn ôl i Gronfa'r Ysgol. Diolch hefyd i bawb gyfrannodd wobrau y raffl.

Aeth gwobrau Clwb yr Ysgol mis Rhagfyr i Mrs Diane Pritchard, Llanberis, a Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd.

Dymunwn yn dda i Trefor Glyn Evans o flwyddyn 2 sydd wedi symud i fyw i Lanrug a bellach wedi dechrau yn yr ysgol gynradd yno. Gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ei ysgol newydd.

Yr ydym yn falch iawn fod Mrs Hilda Orritt, y gogyddes, wedi gwella ac yn ôl wrth ei gwaith. Cydymdeimlwn â hi a'i theulu yn eu profedigaeth o golli mam yng nghyfraith, sef Mrs Enid Orritt, gynt o Hafan Elan, Llanrug.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Dyweddïo: Llongyfarchiadau i Medwen Jones, merch Mrs Megan Jones a'r diweddar Mr D. O. Jones, Greuor Villa, ar ei dyweddïad ag Aled, mab Mr a Mrs Elwyn Jones-Griffith, Garnedd, Ffordd-y-brenin, Pen-y-groes.

Gwasanaeth Nadolig: Cynhaliwyd oedfa i ddathlu'r Nadolig yng Nghapel M.C. Brynrefail bawn Sul, Rhagfyr 18fed. Roedd y gwasanaeth dan ofal aelodau a phlant yr Ysgol Sul. Paratowyd y sgript, dan y teitl 'Derbyn Gwahoddiad', gan Mrs Lowri P. Roberts-Williams. Roedd y gwaith wedi ei seilio ar y thema a ddilynwyd yn nosbarth yr oedolion yn yr Ysgol Sul yn ystod mis Rhagfyr, gan ganolbwyntio ar y gwahoddiad estynnwyd i'r bugeiliaid a'r doethion. Cymerwyd rhan gan Mr R. W. Evans, Mr Gwyn Hefin Jones,

Mrs Mair Wyn Davies, Mrs Jennie A. Roberts, Mrs Ifanwy Jones a Mrs Lowri P. Roberts-Williams. Roedd cyfraniad y plant dan ofal Mrs Mair Wyn Davies. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Jennie A. Roberts a hi a gyflwynodd roddion i'r plant ar ran yr Ysgol Sul. Estynnwyd croeso arbennig i'r gwasanaeth i Mrs Hannah J. Jones, 7 Trem Eilian, a balch oedd ei gweld yn yr addoliad wedi cyfnod o waeledd a thriniaeth lawfeddygol.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, Ionawr 16eg, daeth yr aelodau ynghyd i'r Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Y gŵr gwadd oedd Mr John Jones, Bryncoch, Llanrug, a bu'n sgwrsio'n ddiffr am ei hoffter o hen ddodrefn. Rhoddwyd y te gan Mrs Mai Davies a Mrs Dwynwen Williams. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Euronwy Roberts, gan Mrs Carol Houston. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 20fed.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO

Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

Cwmni Theatr Gwynedd mewn
cydweithrediad â Theatr y Sherman
yn cyflwyno



CWM GLO

gan James Kitchen Davies Addasiad: Manon Rhys

Stori am ryw, blacmel a thrais yn Rhondda'r tridegau yw **CWM GLO**. Pan enillodd wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol 1934, cysidwyd y ddrama yn rhy ffaidd i'w pherfformio, a hyd heddiw, chwedeg mlynedd yn ddiweddarach, nid yw'r ddrama wedi cael ei pherfformio yn broffesiynol.

Cast

Eirlys Britton, Donna Edwards, Simon Fisher
Maria Pride, Ieuan Rhys, William Thomas
Griff Williams

THEATR GWYNEDD, BANGOR

Perfformiadau Cymraeg

Noson Blaenweled - Nos Iau 16 Chwefror
Nos Wener - Nos Sadwrn 17 - 18 Chwefror
Nos Fawrth - Nos Sadwrn 21 - 25 Chwefror
am 7.30 y.h.

Perfformiadau Saesneg

Nos Fawrth 28 Chwefror -
Nos Sadwrn 4 Mawrth am 7.30 y.h.

SWYDDFA DOCYNNAU: Bangor (01248) 352708

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlion, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248


Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

GWÊL Y LLYN



Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partion

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb Snwcer: Dyma ganlyniadau cystadlaethau Nadolig 1994 — Snwcer dan 13: 1, Gethin Williams; 2, Howyn Parry. Dan 16: 1, Richard Williams; 2, Tristan Jones. Oedolion — Snwcer: 1, Len Parry; 2, Idris Roberts. Billiards: 1, Meirion Jones; 2, Idris Roberts. Cyflwynwyd y gwobrau gan Mr Bobby Williams. Diolch i bawb am noson lwyddiannus.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig: Dymuna ffrindiau a chymdogion Mrs Mary Jones, gynt o 4 Bwthyn, ddymuno iddi ben-blwydd hapus yn 90 oed. Mae Mrs Jones a'i theulu wedi treulio nifer o flynyddoedd yn yr ardal, a bu ei phriod yn brysur iawn ar hyd ei oes yn gofalu am barti canu genethod hardd yr ardal. 'Pen-blwydd hapus Mary ac edrychwn ymlaen am y cant.'

Apêl Amanda Morris, Pwllheli, a Steffan Price Jones, Llanrug: Dymuna staff y gegin yn Ysgol Gwaun Gynfi ddiolch i'r pentrefwyr am eu haelioni a'u cefnogaeth pan fuont o amgylch yn ddiweddar yn casglu arian i'r ddwy apêl uchod. Casglwyd fel â ganlyn: o ddrws i ddrws — £305; casgliad noson Carolau Ysgol Gwaun Gynfi — £65; gan wneud cyfanswm o £370. Trosglwyddwyd y swm o £185 yr un i'r ddwy apêl.

Priodas: Ar y 3ydd o Ragfyr yng Nghapel Cefn-y-waun priodwyd Helen Mair, merch John Maldwyn a Mair Jones, 14 Rhes Marian, â Mervyn, mab Nansi a'r diweddar



Thomas Morris, Pentre Helen. Gweinyddwyd y gwasanaeth gan y Parchg Trefor Lewis, Bae Colwyn, a'r organydd oedd Mr John B. Jones. Y morynion oedd Anne Williams, Emma, Llio ac Anna. Y gwas priodas oedd Gwyn Jones a'r tywyswyr oedd Aeron M. Jones a Tommy Morris. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Gwnaed gwisgoedd y morynion gan Mrs Gwen Roberts, Weirglodd Goch,

a'r deisen briodas gan Mrs Margaret Roberts, Porth y Gogledd. Treuliwyd y mis mêl yn Kenya.

Gwellhad: Rydym yn falch o glywed fod Mr B. Williams, 4 Tai Caradog, yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Cyfarfu â damwain yn ystod gwyliu'r Nadolig ac mae o bellach wedi dod adref o'r ysbyty.

Dymunir gwellhad llwyr a buan i Mr Cynan Jones, arweinydd presennol y Seindorf. Fe'i cymerwyd i'r ysbyty yn ddisymwth ychydig wedi'r Nadolig.

Da clywed fod Mrs E. Morris, Ffordd Deiniol, yn gwella wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.

Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt i gyd.

Diolchiadau:

Dymuna teulu y diweddar Ellis Evans, 2 Cynfi Terrace, ddiolch i gymdogion a ffrindiau am y llu o gardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl. Diolch am y rhoddion tuag at Ymchwil y Galon.

Dymuna Mervyn a Helen, 7 Rhes Fictoria, ddiolch o galon i bawb am y llu anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mair Lewis, 18 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd tra yn Ward Gogarth Ysbyty Gwynedd ac wedi iddi ddod adref. Diolch i'r meddygon yn Meddygfa Deiniolen a Llanberis am eu gofal arbennig. Diolch yn fawr i bawb.

Eisteddfod Gwaun Gynfi: Cyfarfu pwyllgor cyffredinol yr Eisteddfod o dan lywyddiaeth Mrs Hilda Parry yn y Ganolfan ar nos Fawrth, Ionawr 10fed.

Oherwydd gwaeledd bu'n rhaid i'r pwyllgor dderbyn ymddiswyddiad Mr Robert Williams yr ysgrifennydd cyffredinol a'i briod Mrs Marian Williams y trysorydd. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith diflino i'r Eisteddfod o'r cychwyn cyntaf a theimlir mai anodd iawn fydd llanw'r bylchau.

Etholwyd y canlynol yn swyddogion am 1995 — Llywydd: Mrs Hilda Parry; Is-lywydd: Mr John B. Jones; Trysorydd: Mr Dafydd Wyn Williams; Ysgrifennyddion

Cyffredinol: Mr a Mrs Hefin G. Jones.

Bwriedir cynnal Eisteddfod Gwaun Gynfi eleni yn Festri Capel Ebeneser ar ddydd Sadwrn, Hydref 28ain.

Y Seindorf: Prysur iawn fu hanes y Seindorf dros y Nadolig. Fel arfer buom o amgylch wardiau Ysbyty Gwynedd yn diddanu'r cleifion gyda charolau; diddanu gweith y Grid Cenedlaethol yn eu cinio blynyddol yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis; ac yn rhoi cyngerdd i westeion gwesty Seiont Manor, Llanrug.

Ar ddydd Gŵyl Sant Steffan dathlwyd ein swper blynyddol yng Ngwesty'r Anglesey, Porthaethwy. Cydnabuwyd gwaith dau o aelodau ifanc y Seindorf, sef Euros Williams enillydd tarian goffa Mr John Childs; a Dylan Hughes enillydd tarian goffa Mr a Mrs O. H. Jones. Cyflwynwyd tlws hefyd i Mr Meirion Jones fel gwerthfawrogiad o'i waith yn trefnu ymweliad y Seindorf â Llundain dros y blynyddoedd.

Daeth newydd trist inni pan drawyd ein harweinydd, Mr Cynan Jones, yn wael ac yntau ar fin cychwyn i Ddeiniolen. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo. Mae Mr Dafydd Wyn Williams wedi ymgymryd â'r gwaith o arwain y Seindorf yn absenoldeb Mr Jones.

Cynhelir y Pwyllgor Blynyddol yn yr Ystafell Ymarfer ar nos Sul, Ionawr 29ain am 7 o'r gloch.

Y Ganolfan: Cynhaliwyd pwyllgor nos Fercher, Ionawr 18fed, pryd yr etholwyd y pwyllgor rheoli am 1995 fel a ganlyn — Llywydd: Mr Len Jones; Is-lywydd: Mr Glyn Gruffydd; Ysgrifennydd: Mr Hefin G. Jones; Ysgrifennydd Llogi: Miss Caroline Davies.

Oherwydd gwaeledd derbyniwyd ymddiswyddiad Mr Robert Williams fel Trysorydd ac Ysgrifennydd Llogi. Rhoddodd Mr Williams flynyddoedd o wasanaeth i'r Ganolfan a mawr yw ein diolch iddo. Dymunwn adferiad buan iddo a gobeithiwn ei weld yn mynychu'r pwyllgorau fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned cyn bo hir.

Cyfeiriad yr Ysgrifennydd Llogi yw: **Caroline Davies, 5 Pentre Helen, Deiniolen.** Cofiwch rhaid talu wrth logi'r Ganolfan.

Cefnywaun ac Ebeneser: Bu mis Rhagfyr yn fis prysur iawn i blant yr Ysgol Sul Unedig. Casglwyd nifer o focus esgidiau yn llawn o anrhegion i'w hanfon i blant Bosnia ac ar 18 Rhagfyr dechreuwyd dathliadau'r Nadolig. Cafwyd cyfarfod arbennig o dda gyda phlant yr Ysgol Sul a'r Urdd wedi ymuno ac

wedi wedi drefu gan Miss Jean Pari Jones, Mrs Annette Bryn Pari a Lyndsey Vaughan. Arweinwyd y cyfarfod gan y Parchg John Pritchard a chafwyd eitemau cerddorol gan ungiolion a darlenniadau. Casglwyd £53 at Gronfa Haematoleg a Chaner Gwynedd. Ar 21 Rhagfyr bu'r plant yn mwynhau eu hunain yn Theatr Gwynedd yn gweld y pantomeim 'Culhwch ac Olwen' ac ar ddiwedd y pŵn roedd yr athrawon wedi bod yn brysur yn paratoi te parti iddynt yn festri Ebeneser a chafwyd ymwelydd arbennig yno, sef Siôn Corn, a chafodd pob un o'r plant anrheg ganddo.

Ail-ddechreuodd yr Ysgol Sul ar 8 Ionawr am 10.30 o'r gloch. Bydd croeso i aelodau newydd.

Fore Sul, Ionawr 1, neilltuwyd rhan or oedfa yn Ebeneser i groesawu dau ddiakon newydd. Etholwyd Mrs Eirlys Williams a Mr Neville Williams yn ddiagoniaid cyn y Nadolig, a neilltuwyd hwy i'r gwaith wrth Fwrdd y Cymuned ddechrau'r flwyddyn. Dymunir yn dda i'r ddau ar ran yr eglwys.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gweddi dechrau blwyddyn yn Ebeneser a Cefnywaun ddydd Sul, Ionawr 8. **Cyngor Eglwys:** Nos Lun, Ionawr 9, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn o Gyngor Eglwys Deiniolen. Y Parchg Olaf Davies oedd yn pregethu yn yr oedfa a gynhaliwyd yn Ebeneser. Llywydd y Cyngor yn 1995 yw Mrs Margaret Cynfi Griffith.

Dymunir yn dda i un o selogion y Cyngor Eglwys, Mr Bobby Williams, Tai Caradog, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n debyg y gallai mwyafrif cymdeithasau'r pentref anfon yr un cofion ato gan ei fod yn un o'r bobl hynny sy'n cefnogi cymaint o weithgareddau yn Deiniolen a'r cylch. Brysiwch wella.

DRAENOG

Mae'n siŵr o fod yn oer iawn i ddynion llefrith y fro 'ma godi allan — yn enwedig o gofio'r tywydd dros y mis diwethaf. A phan gafodd un ohonynt byncjar ger Glyntwrog y dydd o'r blaen, roedd ei ddwylo drun yn rhy oer i fedru agor powltau'r olwyn. Doedd ei bartner fawr o help 'chwaith, a bu'n rhaid disgwyl yn amyneddgar am gymorth proffesiynol. Dylai'r dyn llefrith gofio'r tro nesaf mai MEICal ydi enw ei bartner nid MEICanic!

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
 Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
 Cylchgronnau ● Papurau Newydd
 Cardiau Penblwydd ● Wyau
 Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

OSMOND SHAW DEINIOLLEN



- GWERTHU
— TRWSIO
- ★ Teledu
- ★ Fideo
- ★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

LWLOD A LOL FELLY

gan Y GWALCH

Doeddwn i ddim wedi gweld yr hen fachgan hwnnw sydd wedi mynd i sgidia'r Deryn Mawr ers pobiad neu ddau, ond roedd o yn y dre y diwrnod o'r blaen a rhyw barseli o dan ei fraeichia fo. Mae'n rhaid fod y Dolig wedi ei dynnu o allan fel gwibedyn gwres.

'Lle'r ei di mor bwcslyd?' medda fo. 'Mi rwyd ti wedi cael haint yr oes; bob munud ar ruther. Does dim rhyfadd fod ei calonna nhw yn mynd yn glec. Thal hi ddim i un o dy oed ti. Dim ond mewn un lle y medri di gael dy gladdu cofia yn y diwadd.'

'O Ia debyg,' medda finna. 'Sut ydach chi'n dal?'

'Difai â chysidro, er cofia, mae chwith fy ngweld i erbyn hyn; dim ond plisgan o beth oeddwn i, 'run fath â rhyw hen gath wryw wedi cael ei doctora, yn gartrefol ar aelwyd pawb. Mi welist yr hen gathod gyrfod 'na yn eu preim. Mae nhw yn medru chwistrellio eu finag i fynny i'r fargod wyddost ti fel dynion tân; mi welis rai yn gneud.'

'Tewch â deud,' medda fi.

'Do'n tad. Ond dyna i ti beth na fedra i yn fy myw neud rwan byth ar ôl iddyn nhw intyrrffirio hefo fi yn sbyty Bangor 'na, ac mi roedd yna rai yr adag honno yn mynd mor bell â deud bod gin i gliciad i ddwad ag achos yn eu herbyn nhw am iawn, ond beth oedden nhw ddim yn wybod oedd hyn: Doedd gen i ddim tystiolaeth wyt ti'n gweld, roeddann nhw hyd yn oed wedi tynnu hwnnw, a dyma fi'n gofyn i'r doctor bach du hwnnw dwnod cyn i mi ddwad adra, "Ydach chi'n meddwl y medra i fyw heb fy nhystiolaeth, doctor?" medda fi, achos yr oeddwn i'n meddwl ei bod nhw wedi fy amddifadu i o rhywbath na faswn i'n medru gneud hebddo fo wyt ti'n gweld. "Wn i ddim eto," medda fo fel 'na, mwya cwl. "Ych un chi oedd y cynta i mi dynnu." Wel, mae'n rhaid iddyn nhw ddechra yn rhywla debyg, ond mi fasat yn meddwl y basa nhw yn cychwyn practeisio ar geiliogod neu gywion cwnhingod, neu rhyw betha felly, fasa yn un peth yn medru dwad ag achosion yn eu herbyn nhw. Roedd y gwasanach iechyd 'ma yn dechra mynd a'i ben iddo yr adag honno wyddost ti.'

'Ydach chi'n meddwl?'

'Siwr o fod, ac mi gafodd yr hen

fodryb hi hefyd gynyn nhw, wyddost ti. Mae hi'n syndod ei bod hi cystal â deud y gwir.'

'O, beth ddaeth iddi hi?' medda fi.

'Roedd hi wedi mynd i mewn i gael llau ei lwlod wyt ti'n gweld, a'r adag honno roeddann nhw yn tynnu dy lwlod di allan i'w llau nhw. Roeddann nhw yn eu sgwrio nhw hefo brws dannadd a phowdwr golchi wyt ti'n gweld, ond heddiw mae nhw yn medru eu llau nhw tu mewn i ti hefo soda a pheipan aer. Does dim dwy waith nag ydy meddygaeth wedi cymyd cama mawr ymlaen yn ystod y blynyddoedd dwaetha 'ma.'

'Mi rydadch chi'n iawn.'

'Y peth cynta' fuo raid iddyn nhw neud hefo'r hen fodryb oedd ei rhoi hi yn y twb, er mwyn cael ges lle i roi'r twca ynddi hi i gael at ei lwlod hi, ac mi ddeuda i wrthat ti pâm. Ar ei glinnia o flaen y tân a'i phen a'i sgwydda hannar y ffordd i fynny'r simdda ac yn ddu fel mawnan oedd hi pan y trawyd hi yn wael wyt ti'n gweld, ac yr oedd hogia'r ambiwlans yn deud na chawson nhw erioed y fath lanast yn eu cerbyd ers iddyn nhw achub y jac do hwnnw oedd wedi tagu mewn simdda yn y dre. Trio llau Jac mwg oedd hi, yr hen garpan.

Rhyw lefran bach ifanc yn dechra nyrsio oedd yn ei molchi hi erbyn deall, newydd ddechra nyrsio ac yn syth o ganol y wlad 'run fath â finna, ac wedi gweld fawr ddim ond buwch a brân. A'r adag honno roedd ganddyn nhw injian i godi pobol o'r bath. Wrth gws mae hi ym mhob man heddiw dydw i ddim yn deud, ond yr adag honno mi roedd o'n beth newydd spon wyt ti'n gweld, ac mi roedd yna bobol o bell ac agos yn dwad yno i'w gweld hi'n gweithio. Roeddann nhw'n deud fod yna rai hyd yn oed yn stwffio eu bodia i ben draw ei gyddfa i neud eu hunan yn sâl drwy godi pwys, er mwyn cael esgus i ddwad yno.

Beth bynnag, pan ddaeth hi'n adag codi'r hen fodryb o'r twb, ar ôl iddi fwydo digon, mae'n rhaid bod yr hogan bach 'na wedi bachu'r injian yn groes wyt ti'n gweld. Yn lle codi'r hen fodryb, mi gododd y bath o'i wraidd, nes yr oedd y teils rheiny yn racs mân fel bwyd ieir a tylla mawr yn y parad, ac mi roedd y peipia dŵr yn bob siap hyd y fan

honno fel spageti.

Wedyn mi gollodd yr hogan ei phen, ac mi fethodd stopio'r injian. Y peth nesa roedd yr hen fodryb a'r bath yn y seilin 'run fath â gwydr lamp, a fedra'r hogan neud dim ond gweiddi, 'Ydach chi'n iawn Musus Gryffis?' 'Ydw,' medda'r hen fodryb, 'ond bod fy mhen i dan dŵr.'

'Sut y buo hi wedyn?' medda fi.

'Wel mi fuo raid iddyn nhw gael y dynion tân yna i chael hi i lawr, a'r cwbl fedra rheiny ei neud owdd ei thywllt hi allan fel pysgodyn aur.'

'Frifodd hi?'

'Roeddwn i'n mynd i ddwad at hynna rwan tasa ti wedi gadael cyfla i mi. Mae'n rhaid iti ddeud bod yr hogia tân 'na yn gwybod beth mae'n nhw'n neud. Roeddann nhw wedi taenu rhyw o dani hi wyt ti'n gweld fel tasa nhw yn ffureta, ac i honno y disgynodd hi fel dynas mewn syrcau wedi cael caff gwag ar y trapis. Roedd hi'n sownd yn y rhyw fel pennog coch.'

'Mi fuo yn lwcus.'

'Do, â deud y gwir, er cofia, mi fuo hól y rhyw ar ei chnawd hi am wythnosa fel tasa rhywun wedi trio 'spot the ball' arni hi. Mae hi wedi bod drwy betha mawr ysti yr hen fodryb.'

Ar hynny dyma ni'n clywad rhyw lais o'r tu ôl.

'Ydach chi'n dwad hefo'r parseli 'na Huwi? Dydy'r Moto Glas ddim yn cychwyn oddar y Maes rwan cofiwch ar ôl i'r lobiad 'na neud poitch o'r dre 'ma.' A phwy oedd yno o dan ei beichia ond y ddynas ei hun.

'Wel so-long,' medda'r hen fachgan gan ail drefnu ei barseli. 'Mae gwedd ddifai arni fasa ti ddim yn deud, o un sy' wedi cael sgwrio ei lwlod?'

'Oes yn tad,' medda finna. 'Blwyddyn newydd dda i chi.'

Roedd o'n edrych fel un fasa yn gallu gneud hefo pob bendith ddeua i'w ffordd o, yr hen greadur.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440



Plant yr Ysgol Sul yn eu gwasanaeth Nadolig.

Croeso cynnes iawn i'r Parchg a Mrs Philip Hughes, Catrin a Rhian i'n plith. Sefydlwyd y Parchg Philip Hughes yn Rheithor y Plwyf yn Eglwys St. Padarn, Llanberis, ar y 12fed o Ionawr. Bendith Duw fo ar ei weinidogaeth yn y plwyf hwn a Llanrug.

Cydymdeimlwn a Ted Anwyl, 3 Bro Glyder, a'r teulu ar ôl iddo golli ei dad — John Emrys Anwyl gynt o'r Bala a fu farw yng nghartref preswyl Bron Eryri, Llanberis, yn 92 mlwydd oed yn ddiweddar.

Hoffai Ted Anwyl, 3 Bro Glyder, a'r teulu ddiolch i Dr Mali ac Eirian a holl staff cartref preswyl Bron Eryri,

Llanberis, am eu gofal caredi o'i dad — John Emrys Anwyl dros y blynyddoedd diwethaf.



John Paul a Chantelle yn actio Joseff a Mair.

Cynhaliwyd parti Nadolig plant yr Ysgol Sul yn festri'r Capel ddydd Gwener, Rhagfyr 16. Roedd y byrddau'n llawn a'r plant wrth eu bodd yng nghanol yr hwyl. Cafwyd ymweliad gan Siôn Corn ar ddiwedd y parti.

Nos Wener, Rhagfyr 23, cafwyd Gwasanaeth Nadolig yn y festri. Cafwyd cyflwyniad o stori'r Geni gan blant yr Ysgol Sul, a gwnaeth pob un ohonynt a gymerodd ran yn y ddrama eu rhan yn ardderchog. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth hefyd gan athrawon yr Ysgol Sul, a chafwyd eitem ar gân hefyd gan barti o ferched y Capel. Cafodd pawb baned a mins pei ar ôl y gwasanaeth. Diolch i athrawon yr Ysgol Sul am drefnu'r gwasanaeth.

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30

Ffôn: Llanberis
870922

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed. Ffôn: 650556

Clwb 300: Dyma restr enillwyr mis Rhagfyr — £40: Mr Huw Williams, Glaslyn; £25: Mrs Beryl Jones, Dôl-y-coed; £10: Mrs G. Gwyrfaï, 3 Croes-y-waun. Roedd yna ddwy rodd ychwanegol o £10 yr un i Mrs R. A. Hughes, 15 Tref Eilian a Mr Elfyn Griffith, 6 Tŷ Hen.

Diolch: Dymuna Rhian Llywela Jones, Eric a Fflŷr, 22 Tref Eilian, ddiolch o galon i'w teulu, perthnasau, cymdogion a'u ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd Rhian tra'n cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac am yr holl garedigrwydd a dderbyniasant dros y Nadolig. Diolch i'r meddygon a gweinyddesau Ward Conwy ac i'r meddyg teulu a'r gweinyddesau cymuned a fu'n gofalu am Rhian. Diolch yn fawr iawn a dymunir blwyddyn newydd dda i bawb.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Janet Smith, Rhoslan, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cydymdeimlo: Ar ddydd Gŵyl San Steffan, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw un o hen gymeriadau'r pentref, sef Mr Griffith Jones Williams, Monfa, Rhes Eilian. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf i'w briod Mrs P. Williams yn ei phrofedigaeth.

Ddydd ola'r flwyddyn bu farw cymeriad hoffus arall, sef Mr Stanley Williams, Cefn Coed. Cydymdeimlwn yn ddwyd â'i briod, Mrs Mair Williams ac â'i ferch, Valmai, yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Barbara Griffith, Bro Waun, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Barbara.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Elin a Richard, Morawel, ar enedigaeth efeilliaid bach — dau fachgen — Gwern a Cadan. Maent ar hyn o bryd yn yr Uned Gofal Arbennig yn yr ysbyty.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Iona, Garreg Fawr, ac i Phillip, Y Goedwig, ar gyrraedd eu deunaw oed. Dymunwn ichi bob dymuniad da i'r dyfodol.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mr Robin Williams, Bryn Difyr, a Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin, adref ar ôl iddynt orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty. Croeso adref hefyd i Mr Ifan Hughes, 3 Tref Eilian, gobeithiwn y

byddwch yn cryfhau ac yn gwella.

Mae'n dda gweld Bernard Parry, 1 Bryn Golau, wedi gwella wedi damwain ar ei feic modur tra ar ei ffordd i'w waith ar un o'r boreau barugog a gawsom ni cyn y Nadolig. Da gweld Raymond Parry, Ffridd Felan, wedi gwella ac o gwmpas heb faglau na ffôn ar ôl iddo dorri ei goes.

Plygu'r Eco: Diolch i Marian, Carys a Pearl am fynd i Lanrug i blygu rhifyn y Nadolig o'r Eco. Roedd Ifanwy am fynd hefyd ond, oherwydd i'w nai bach, Pryderi, gael damwain i'w law, methodd oherwydd rhaid oedd iddi warchod Owain.

Diolch: Dymuna Iwan a Shoned, Pant Afon, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar eu dyweddïad.

Heb Drydan: Yn anffodus cafwyd torriad yn y cyflenwad trydan yn yr ardal ar 4 a 5 Ionawr. Rwyf wedi cysylltu â MANWEB ac wedi cael gwybod mai y rheswm am ddat-gysylltu'r cyflenwad trydan oedd



Plant capel Croesywaun yn perfformio eu drama Nadolig.

bod trosglwyddydd (transformer) gorsaf drydan Llwyn Bedw wedi torri a bu'n rhaid troi'r trydan i ffwrdd am ychydig tra'n trwsio'r diffyg. Gaf i ymddiheuro i'r rhai ohonoch, yn enwedig yr oedrannus, a fu'n dioddef yn ystod y torriad, Yn gywir — Y Cynghorydd Eurig Wyn.

Dathlu Gŵyl Ddewi: Mae Canolfan Chwaraeon Waunfawr wedi trefnu noson i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ar nos Sadwrn, 11 Mawrth, yng nghwmni Dafydd Iwan. Y pris, gan gynnwys pryd (sgampi, cyw iâr neu lasagne llysieuol) yw £4.50. Enwau (a'ch

dewis o fwyd) i Robert, Eurig, Brian neu Edgar. Fe drefnir bws.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr nos Lun yr 16eg, ac er y tywydd garw cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones. Hanes ei thaith o amgylch gwledydd Llychlyn oedd ei thestun ac fel arfer mwynhaodd pawb y noson. Y llywydd oedd Miss Marian Wyn Jones a diolchwyd i Mrs Vaughan Jones gan Mr Iolo Huws-Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 20fed o Chwefror, a'r gŵr gwadd fydd Mr Cledwyn Williams, Llanrug.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Pwyllgor y Neuadd: Bu 1994 yn fwrwm o weithgareddau amrywiol a diddorol. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd. Diolchir hefyd i ffyddloniaid y Clwb Cant ac atgoffir chwi'n garedig fod angen adnewyddu'r aelodaeth o £6 y flwyddyn ddiwedd Ionawr. Os dymuna unrhyw un ymaelodi â'r Clwb am £6 y flwyddyn neu 50c y mis, cysyllter â'r trysorydd, Leslie Larsen, Llygaidd yr Haul, neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

Bu criw o garolwyr o gwmpas y pentref ychydig cyn y Nadolig a chasglwyd £46. Diolchir i bawb a gyfrannodd, a wrandawodd, ac a'n gwahoddoddi ni ar eu haelwydd — bu'n noson gymdeithasol, draddodiadol a difyr iawn. Gobeithio yr ymunwch â ni yng ngweithgareddau'r flwyddyn newydd hon hefyd.

Parti Nadolig yr Ysgolion Sul: Hyfryd oedd gweld aelodau'r ddwy Ysgol

Sul yn ymuno i fwynhau danteithion di-ri a baratowyd gan y mamau yn Neuadd Eglwys Santes Helen. Daeth Siôn Corn ar ei hynt a diolchir iddo am ei anrhegion a'r geiriau caredig i bob un o'r plant.

Ysgol Sul Bosra: Croesawyd dwy aelod ifanc iawn i'r Ysgol Sul, Ionawr 8fed, sef Bethan ac Elin Prysor. Y mae'r ddwy wedi hen gynefino â'r capel a'r athrawon bellach a gobeithio y byddant yr un mor ffyddlon â gweddill yr aelodau.

Gwellhad: Anfonir atgofion annwyl i Mrs Eluned Porter a Mrs Eileen Thomas wedi eu triniaethau yn Ysbyty Gwynedd. Deallir bod Mrs Porter yn Y Foelas, Llanrug, am ychydig ac rwy'n siŵr ei bod yn falch o gwmni Mrs Nellie Roberts, Llys-y-gwynt gynt. Cofion annwyl at y ddwy ohonoch. Gobeithio fod Dylan Roberts, 18 Bryntirion, yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty.

18 oed: Pob bendith i Siôn Roberts, Llys Arddurn, ar achlysur ei ben-

blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Ar ddydd Calan dathlodd Llŷr Tegai yntau ei ben-blwydd yn 18 oed ac yn fuan wedyn bu'n llwyddiannus hefo'i brawf gyrru — a hynny ar y cynnig cyntaf. Felly, llongyfarchiadau a hwyl ar y gyrru, Llŷr.

Llongyfarchiadau: Testun llawenydd bob amser yw genedigaeth plentyn bach. Llongyferchir Rhian a Rhys, Pen-y-groes, ar enedigaeth eu cyntafanedig, Cian Rhys. Dyma rodd arbennig i nain a taid, Delyth ac Alwyn Williams, Cae'r Bythod, a hwythau ar ddathlu eu Priodas Arian ar Ionawr 24ain. Llongyferchir Mrs E. J. Williams, 2 Bryntirion, ar ddod yn hen nain i Cian. Pob bendith a hapusrwydd i chwi fel teulu.


21ain Oed: Mis o ddathlu yn wir yw Ionawr i deulu Cae'r Bythod, genedigaeth, dathlu Priodas Arian, ac achlysur pen-blwydd Dylan yn 21ain oed ar Ionawr 18fed. Hwyl ar y dathlu i chwi oll.

Twnameint Tennis: Llongyfarchiadau mawr i Urien Deiniol fel enillydd twrnameint tenis i fechgyn o dan 10 oed yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon, ar ddydd Sadwrn, Ionwr 14eg. Pob hwyl iti Urien yn y rownd nesaf, sef rownd gogledd Cymru.

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL**
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o
Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod yn yr Eglwys ar nos Iau, Ionawr 5ed, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Nancy Jones, Stryd Newton. Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol iawn gan Mr Gwynhaf Jones, Swyddog Atal Trosedd, a chafwyd trafodaeth frwd ymysg yr aelodau ar lawer pwnc. Llongyfarchwyd Mrs Dilys Phillips ar ddod yn hen nain yn ddiweddar, am y tro cyntaf, a dymunwyd adferiad buan i lawn iechyd i lawer o'r aelodau sy'n wael. Mrs Hilda Williams a Mrs Olwen Roberts oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl y mis yma, a'r enillwyr oedd Mrs Evelyn Williams a Mrs Margaret Griffiths. Diolchwyd i bawb gan Mr Ralph Jones.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Bu'r Côr yn cadw nosweithiau llawen yn y Waunfawr a Thre-garth yn ddiweddar a chafwyd hwyl dda ar y

ddwy noson. Pleser o'r mwyaf oedd cael canu yn Oriel Llanberis ar ddydd Sul, 27 Tachwedd, a chael rhannu llwyfan gyda Lynda Jones o Fethesda a chyfeilio dawnus Timothy Ward. Ar Ragfyr 5ed bu'r Côr yn diddanu'r henoed yn Llanffestiniog a buont yn canu Carolau ym Mhlas Pengwaith a Bron Eryri ar Ragfyr 19. Dymunwn flwyddyn newydd dda i bawb a diolchwn am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn aeth heibio.

Undeb y Mamau: Prynhawn dydd Mawrth, Ionawr 10fed, cynhaliwyd cyfarfod o'r Undeb yn festri Eglwys St. Padarn ac fe gymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Dilys Phillips.

Trafodwyd sawl pwnc gan gynnwys cyffuriau, y ddiod feddwol, diweithdra, ac yn y blaen, a rhoddodd pawb ei farn bersonol ar y materion a sut i'w gorchfygu.

Rhoddwyd cyfarchion i ddwy o'r aelodau oedd yn dathlu eu pen-blwydd. Mrs Muriel Morris oedd yn lwcus o ennill y raffl. Diolchwyd i Mrs Jean Roberts a Mrs Dilys Phillips am ofalu am y baned gan Mrs Betty Williams a Mrs Clara Roberts.

Gwasanaeth Sefydlu: Sefydlwyd y Parchg Philip Hughes yn Rheithor plwyfi Llanberis a Llanrug yn Eglwys St. Padarn ar nos Iau, Ionawr 12fed. Roedd cynulleidfawr yn yr Eglwys a chafodd pawb wledd o wasanaeth gyda chanu godidog. Estynnwyd croeso mawr i Mr a Mrs Hughes a'u dwy ferch, Catrin a Rhian. Gobeithir y bydd y teulu yn cartrefu hefo ni yn fuan.

Capel Coch: Cafwyd gwasanaeth Nadolig llwyddiannus yng nghwmni plant yr Ysgol Sul, brynhawn Sul, Rhagfyr 18. Cymerwyd rhan hefyd gan athrawon yr Ysgol Sul. Cafodd y plant eu parti Nadolig y prynhawn dilynol, a daeth Siôn Corn heibio yn

ôl ei arfer. Yr oedd y plant yn cymryd rhan hefyd mewn cyfarfod carolau a drefnwyd gan Lleisiau Lliwedd y nos Iau cyn y Nadolig.

Cynhaliwyd oedfa undebol i aelodau capeli'r pentref yng Nghapel Coch fore'r Nadolig. Gweinyddwyd y Cymundeb gan y Parchg John Pritchard.

Yr Urdd: Bu dau dîm pêl-droed 5-bob-ochr a thîm pêl-rwyd yn cystadlu yng Ngornest Chwaraeon yr Urdd ym Mangor, ddydd Sadwrn, Ionawr 14. Ddydd Gwener, Ionawr 20, bu tîm rygbi'r Adran yn llwyddiannus iawn yn erbyn tîm Ysgol y Gelli yng Nghaernarfon. Enillwyd y gêm o sgôr uchel a dymunwn yn dda i'r tîm yn rownd nesaf y gystadleuaeth. Ddydd Mercher, Ionawr 18, daeth Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, i arwain sesiwn dawnio gwerin gyda phlant lleiaf yr Adran. Cafwyd hwyl fawr ar y dawnio.

Ysgol Dolbadarn: Daeth cwmni theatr o'r Alban i'r Ysgol ddechrau'r tymor newydd i gyflwyno sioe am y 'Bwystfil a'r Eneth Hardd'.

Oedfa Dechrau Blwyddyn: Y Parchg Huw John Hughes, cyn-weinidog yr eglwys, oedd y pregethwr gwadd yn yr oedfa dechrau blwyddyn yng Nghapel Jerwsalem nos Iau, Ionawr 5ed.

Pantomeim: Diolch i Mairwen Baylis am drefnu'r trip blynyddol i'r Pantomeim (Robinson Crusoe) yn Lerpwl ddydd Sadwrn, Ionawr 21. Aeth dros 160 ar y trip, a chafodd rhai o'r plant gyfle i ddawnsio ar y llwyfan gyda seren y sioe David Essex.

Diolchiadau:

Dymuna Jean Roberts, 13 Stryd




Tîm arall pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd.

Goodman, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y lluo cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Karen a Sa'ad Mansoor ddiolch yn fawr i'w ffrindiau a'r teulu oll am eu caredigrwydd, ac am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab William Huw, ar Ragfyr 23, 1994.

Dymuna Iona Vaughan ddiolch o galon i'w ffrindiau a phernasau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18' oed.

Dymuna Haydn, Vera a John ddiolch am bob cefnogaeth a gafwyd gan eu holl gwsmeriaid dros y blynyddoedd yn siop sgloedion Snowdon Valley. Gobeithio y caiff Paul yr un gefnogaeth gan yr ardalwyr wrth iddo ymgymeryd â'r busnes.



Un o dimau pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd.

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981 / 675807

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**
Ffôn: Waunfawr
650552

CLN

Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

**48 Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn/Ffacs: 870200

**Siop Trin Gwallt
SANDRA**
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872565

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Cynigion agor arbennig
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

**EISTEDDFOD
PLWYF
LLANBERIS**

yn FESTRI CAPEL COCH
Nos Wener, 24 Chwefror 1995
am 6 o'r gloch

Beirniad:


Cerdd: Mrs Deilwen Hughes
Llefaru: Mrs Madge Hughes
Gwaith Llaw: Mrs Jane Roberts
Rhyddiaith: Mrs Glenys Jones

Enwau'r cystadleuwyr erbyn 17
Chwefror. Am ragor o fanylion
cysyllter â Heather Jones, Llanberis
872569



Tîm pêl-rwyd yr Urdd.

CROESAIR CHWEFROR



AR DRAWS

1. Arien bore, rŵan (6)
4. Moris, rŵan, ar ei fwyaf dinistriol (5)
8. Yr hyn sy'n gyffredin i ddant ac i gerdd dant (5)
9. Rŵan, ac mae'r 21 wedi rhewi (7)
10. Gostyngeddwrwydd (7)
11. Yr hyn ar ôl ar ôl tân ddydd Mercher? (4)
12. Y cyffro a ddaw o briodas Dei a Sian (3)
14. Newid sefyllfa neu gyfeiriad (4)
15. Rŵan, a dyma'ch cyfle gorau i weld hon (4)
18. Hanner ffordd rhwng heddiw ac echdoe (3)
21. Rŵan, ac mae lfan, mêt Moi, yn ein poeni'n ddyddiol (4)
23. Clywaf fod y pwysicaf o drigolion Caernarfon yn rhywle arall yng Nghymru (7)
25. Rhai sydd byth yn colli (wele'r nodiadau) (7)
26. Y dyn y byddai pob actores yn rhoi unrhyw beth am gael ei dwylo arno (5)
27. 'Mae nghariad i'n -----' blaned? (5)
28. Rhywbeth rhwng 15 a 21 rŵan (6)

ATEBION CROESAIR RHAGFYR



Ymddiheuriadau am roi cymaint o bwysau arnoch i gwblhau croesair mis Rhagfyr. Ni fwriadwyd cynnal un yn rhifyn y Nadolig (mis Ionawr) gan ei fod yn dilyn mor agos i un mis Rhagfyr. Camddealltwriaeth rhwng y golygyddion a'r wasg fu'n gyfrifol am roi'r dyddiad dychwelyd anghywir.

I LAWR

1. Gweinidog anifeiliaid? (6)
2. Grand Prix (3,4)
3. Yn perthyn i'r gred sy'n gwadu athrawiaeth y Drindod (8)
4. Gwasgaru egni wrth esgor (4)
5. Gwahanu oddi wrth y wifren ddaear (5)
6. Clamp (6)
7. Mae angen rhoi digon o le i Erica pan mae wedi meddwi (5)
13. Gweithred a wneir yn ôl arferiad (8)
16. Rhyddfrydwr gwreiddiol? (7)
17. RŴan (1,5)
19. Mwyn gloywi (5)
20. Dirywiedig (6)
22. Natur yn dychwelyd o ardd nain a taid (5)
24. Rhych yr arad (4)

Er hynny, derbyniwyd 16 o atebion cywir — pob un a'i wynt yn ei ddwrn fel petai — ac ambell un yn gadael i mi wybod hynny hefyd!

Llongyfarchiadau i E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Ceridwen Williams, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ceinwen Williams, Bethel; Jean Hughes Jones, Rhiw; Catherine Jones, Rhiw; N. Hughes, Cwm-y-glo; Nancy Jones, Llanberis; Joan ac Iorwerth Williams, Caernarfon; Mary Davies, Waunfawr; Nancy Lovatt, Aberystwyth; Dorothy Jones, Llanrug; Elfed Evans, Llanllechid; a Dilys Pritchard-Jones, Abererch.

Daeth dau gynnig arall i law gydag un ateb anghywir ynddynt.

Credaf fod tri o'r cliwiau cryptig i AFLAWEN yn haeddu bod yn y dosbarth cyntaf, sef ymaeis Elfed: 'Digalon yw cymysgu'r ffrwyth gwaharddedig o flaen lliw y lili'; ymgais Dilys Pritchard-Jones: 'Hapus âf? Na, fel arall'; a'r mwyaf slic ohonynt i gyd, sef enillydd £5 mis Rhagfyr, Nansi Davies, Y Dreiflan, Rhuthun: 'FELAN? AW!!'

Rhowch eich meddwl ar waith y mis yma i lunio cliw cryptig i 25 ar draws, a'r atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, erbyn dydd Llun, Chwefror 20fed, os gwelwch yn dda.

Dyddiadur y Mis

6. Llun CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau.
8. Mercher DINORWIG: Noson Gymdeithasol yn y Ganolfan am 7. LLANRUG: Plaid Cymru. Noson o Frethyn Cartref. BETHEL: Merched y Wawr. Sgwrs gan Mr Arwel Jones.
13. Llun DEINIOLLEN: Cyngor Eglwysi. Cyfarfod yn Libanus am 7 o'r gloch.
14. Mawrth LLANRUG: Merched y Wawr. Sgwrs gan Mr A. Williams o Wasanaeth Tân Gwynedd.
15. Mercher LLANRUG: Cwmni Bara Caws yn perfformio 'Cyw Dôl' yn Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch.
20. Llun DEINIOLLEN: Merched y Wawr. Sgwrs gan Mrs M. Jones, Siop y Plas, Caernarfon. BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.
23. Iau LLANRUG: Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. Noson i godi arian tuag at sefydlu'r Ganolfan newydd yn Llanrug.
24. Gwener LLANBERIS: Eisteddfod Plwyf Llanberis yn Festri Capel Coch am 6 o'r gloch. Mwy o fanylion gan Heather Jones, Llanberis 872569.
27. Llun DEINIOLLEN: Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan Mr Iwan Roberts, Llanrug.

RHODDION

£10: Er cof am Tom Owen, Llys Eiddon (gynt o Derlwyn), Llanrug.

£5: Karen a Sa'ad Mansoor, Tŷ Capel Libanus, Clwt-y-bont; Vera, Haydn a John Hughes, Llainwen Isaf, Llanberis; Teulu Mrs P. Evans, 2 Rhes Cynfi, Deiniolllen; Di-enw, Llanberis.

£3: Mervyn a Helen, 7 Rhes Fictoria, Deiniolllen.

£2: Mrs M. G. Williams, Llain yr Ardd, Bethel; Iona Vaughan, Rhes Cambrian, Llanberis; Mair Lewis, 18 Rhydfadog, Deiniolllen.

Atgof gwell na breuddwyd


Annwyl Olygydd,

A gaf i ddiolch i'r brawd J. H. Hughes am ei erthygl yn y rhifyn diwethaf. Roedd yn erthygl ddiddorol iawn i mi gan fy mod yn gyfarwydd â'r cylch ac oherwydd bod Lôn Las Peris yn newydd imi. Trwy'r erthygl fe ddilynaais J.H. o Ben Twannel, ar hyd y Lôn Bost, heibio i Graig yr Undeb sydd heddiw yn fan arwyddocaol iawn yn hanes y fro. Buan iawn y teimlais fy mod ochr yn ochr ag ef. Pan ddeuthum at Bont Pen-llyn daeth atgofion melyn i'r meddwl wrth edrych ar ddisgleirdeb y llyn a gogoniant yr olygfa oedd yn ei warchod; dychmygais fy hun yn edrych ar y chwarel a chofio nad oes heddiw ond 'segur faen yn gwylio'r fangre'. Pan soniodd J.H. am y Llwybr Troellog drwy'r coed i ardal gymdogol Fach-wen, a'r bythynnod fel y dywed yn llochesu yng nghesail y creigiau, mwynheais ei ddisgrifiad o'r olygfa fendigedig i ben yr Wyddfa ac o Lyn Peris yn llochesu yng ngwaelod y creigiau serth. Rwyf wedi mwynhau'r daith. Paned o de boeth yn awr ac eistedd i ddwyn ar gof atgofion sy'n well na breuddwyd. Dymuniadau gorau ar gyfer 1995.

Yn gywir iawn,
STAN CWM
71 Bramham Drive
Harrogate, Swydd Efrog

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144


Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

CHWARAEON

STRÔC O WELEDIGAETH



Meirion Huws perchennog a symbylydd y clwb.

Gan mlynedd union i'r diwrnod y sefydlwyd Undeb Golff Cymru cynhaliwyd cyfarfod yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, gyda'r bwriad o sefydlu clwb golff ym mro'r Eco. Ers blyneddoddd bu nifer o gyrsgau golff answyddogol yn y cylch, yn amrywio o feysydd ysgolion i garped yr ystafell gartref! Daeth tua 50 i'r cyfarfod yn Llanberis, a gwelwyd ar unwaith bod yr hen gŵyn mai gêm y 'crachach' yw golff wedi ei chwalu. Erbyn hyn mae apêl y gêm yn eang — o'r hacwyr i'r gwir gystadleuydd.

Yr un a sbardunodd y cyfarfod oedd Meirion Hughes, perchennog cwrs naw twll Tyddyn Mawr, Ffordd Crawia, Llanrug. Rhoddodd Meirion adroddiad ar ddatblygiad y cwrs o'r cae moel i'r cwrs naw twll presennol. Cyfeiriodd at ei fro enedigol ym mro Ffestiniog ac at y ffordd y bu i apêl a dymuniad y gymdeithas leol arwain at ailagor cwrs Llan Ffestiniog. Heddiw mae'r cwrs hwnnw yn rhan bwysig o fywyd cymdeithasol a hamdden y fro honno. Yr un yw'r bwriad gyda datblygiad Tyddyn Mawr.

Bu Meirion yn Nhyddyn Mawr ers 1976. Cafodd ganiatâd cynllunio gan yr awdurdodau i ddatblygu cwrs golff yn 1992, ond codwyd amheuan ynglŷn â safon y fynedfa o ffordd Crawia. Mae'r gwaith o wella'r fynedfa wedi dechrau yn ddiweddar ac felly gobeithir symud y rhwystr cynllunio olaf yn y dyfodol agos.

Prif bwrpas y cyfarfod oedd gweld a oedd cefnogaeth a brwdfrydedd i sefydlu clwb golff yn yr ardal. Mae Meirion o'r farn y gallai Tyddyn Mawr ateb gofynion lleol trwy roi man penodol i'r haciwrs a'r gwir ddechreuwyd fynd. Yn anffodus nid yw hyn ynddo'i hun o fawr help i ddatblygu safon y cwrs na'r golffwyr.

O ffurfio clwb byddai trefn bendant yn cael ei rhoi ar y gweithgaredd. Rhaid i'r cwrs fod o leiaf 2000 llath o hyd er mwyn derbyn sêl bendith Undeb Golff Cymru. Rhaid cael clwb er mwyn gallu gosod handicap swyddogol. Mae hyn yn hanfodol bwysig yn yr elfen o ddatblygu, a hefyd ynglŷn â chystadlaethau. Fel perchennog,

gallai Meirion roddi les (dyweder 25 mlynedd) ar dir Tyddyn Mawr i'r clwb golff. Y mae datblygiad unrhyw glwb chwaraeon heddiw yn dibynnu yn helaeth ar sicrhau grantiau oddi wrth gyrff cyhoeddus. Yn naturiol bydd y cyrff hynny yn edrych yn fwy ffafriol ar gais oddi wrth glwb ffurfiol, sefydlog, nag oddi wrth unigolyn â thipyn o hyder neu weledigaeth.

Byddai sefydlu'r clwb hefyd yn rhoi trefn ar ddefnydd y cwrs — arian

chwarae, cyflwr y cwrs, ac yn y blaen. Eisoes mae Meirion wedi buddsoddi tua £5000 i brynu offer i gadw'r 'tees' a'r lantiau mewn trefn. Mae wei trefnu gydag Asiantaeth y Cyngor Sir i gael eu gweithwyr hwy i dorri'r rhodfeydd (fairways) yn rheolaidd.

Yn y cyfarfod roedd trawsdoriad o ryw, oedran a phrofiad golff. Roedd rhai yn aelodau yn barod o glybiau Bangor, Caernarfon, Betws-y-coed a Llanfairfechan. Yr oedd 'profiad' a phrofiadau y rhai hynny yn gaffaeliad i'r pwyllgor. Soniwyd am y drefn 'talw am balu' (term gwydych yn fy mhen i). Dyma'r gwasanaeth i'r gwir ddechreuwr fydd — er nad yn aelod — cael talu i fynd (palu?) o gwmpas y cwrs. Roedd rhai yn awgrymu hefyd y gall cwrs llai fel Tyddyn Mawr gael ei ddefnyddio fel cwrs 'ymarfer' i rai sy'n chwarae ar y cyrsiau mawr.

Wedi trafodaeth derbyniwyd yr egwyddol o sefydlu clwb. Yr oedd Meirion yn rhagweld tua 150 o aelodau (eisoes roedd rhyw 80 wedi dangos diddordeb). Ni chrybwyllwyd swm penodol ond gellid meddwl am dâl aelodaeth o ryw £50. Gyda'r datblygiadau cynllunio roedd Meirion yn rhagweld y clwb yn gweithredu o'r Pasg eleni ymlaen. Yn dilyn y cyfarfod agoriadol cafwyd 12 oedd yn barod i roi eu henwau ymlaen i ffurfio pwyllgor. Dylid pwysleisio hefyd y bydd cangen merched yng nghlwb Tyddyn Mawr.

Y mae breuddwyd Meirion yn dechrau dwyn ffrwyth. I sefydlu a chryfhau y sylfaen cynhelir ail gyfarfod yng Ngwesty Dolbadarn am 8 o'r gloch nos lau, Chwefror 9fed. Taer erfynnir am gefnogaeth dda i'r

cyfarfod hwnnw er mwyn cadarnhau y bwriad pendant hwn o roi elfen arall o hamdden i'r cylch. Os oes unrhyw gwestiynau gellir cysylltu â Meirion yn Nhyddyn Mawr; ffôn: (01286) 674919.

Y prisiau a godir ar hyn o bryd i chwarae golff yn Nhyddyn Mawr yw — Oedolion: Sadwrn a'r Sul, £2 (2 rownd £3); Llun hyd ddydd Gwener, £1 (2 rownd £1.50). Myfyrwyr a Phlant: Sadwrn a'r Sul, £2; Llun hyd Gwener, £1.

Cyfraniad yn y Canmlwyddiant

Clywais rai'n canmol ac eraill yn mynegi siom ynglŷn â'n llyfr newydd sy'n olrhain hanes canmlwyddiant cyntaf Cymdeithas Pêl-droed Gogledd Cymru.

Y mae'r cynnwys, diwyg a'r darluniau yn wych, yn ddarllenadwy, ac yn deyrnged i lafur diflino yr awdur. Yn anffodus dim ond mil o gopiau a argraffwyd. Gobeithio y daw mwy ar y farchnad.


Un elfen ddiddorol a ddaw i'r amlwg o'i ddarllen yw cyfraniad amhrisiadwy y timau pentref i hanes a datblygiad y gêm. I mi yn bersonol mae'n rhyfedd meddwl fod pentref bach Glasinfryn wedi ennill Cwpan lau yr Arfordir ddwywaith cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Diddorol hefyd yw sylwi ar gyfnod cryf timau'r colegau yn ystod y 50au; a chryfder timau'r 'milwyr', fel Tonfannau, yn ystod y cyfnod pan oedd y Gwasanaeth Milwrol Cenedlaethol mewn bod.

Daw'n amlwg o ddarllen y llyfr mai rhai enwau mawr y 60au oedd Llechid Celts, Mostyn YMCA, Niwbwrch... ac wrth gwrs Llanrug a Llanberis. Yn sicr, mae enw Llanberis yn amlwg iawn yn yr hanes — o'r tîm rhyfeddol yn y 60au drwodd i dîm yr Intermediate a'r Barritt. Byddai cipio Cyngrhair Sealink y tymor yma yn uchafbwynt gwydych i'r Darans (ni allaf eu galw'n 'Locos'). A dyna gamp Deiniolen wedyn, yn ennill y Cwpan lau yn union flwyddyn y canmlwyddiant. A chofiw'n i Lanrug wneud cryn farc ganol y 70au. Fel y dywedais mae rôl y tîm pentref yn un rhyfeddol.

Cofiaf Willie Wyn Williams, Bethel, cyn-chwaraewr Llanberis yn dweud fel y byddent yn teithio i gêmiau nos yn Sir Fôn ar gefn beic, a hynny wedi diwrnod o waith. Tipyn gwahanol i'r dyddiau yma pan fo rhai chwaraewyr eisiau cael eu cludo oddi ar y stepan drws!

Gobeithio, gyda'r newidiadau mawr yng Nghymdeithas Pêl-droed Cymru, nad anghofir am y gwreiddiau. Peth anodd yw cynnal clwb erbyn heddiw. Er mor wych yw'r yniad o'r pyramid rhaid cofio bod angen sylfaen cadarn i'w gynnal.

Pa ddatblygiadau a ddaw yn y dyfodol tybed? A fydd y Konica yn parhau? A fydd Caerdydd, Abertawe, Wrecsam a Merthyr yn uno â'r Gynghrair hon? Beth fydd datblygiad pêl-droed merched (ydw, rwyf wedi clywed am dîm merched Llanrug, a gobeithiaf cael adroddiad yn y dyfodol)? Beth bynnag sydd o'n blaenau gobeithio y bydd bro'r Eco yn cyfrannu i'r llwyddiant yn y dyfodol fel ag a wnaeth yn y gorffennol.



Map o gwrs naw twll Tyddyn Mawr, Ffordd Crawia, Llanrug.

RYGBI

Bydd ymarferion rygbi yn ail-dechrau ar nos lau, 26 Ionawr, ger y Clwb Rygbi, Y Morfa, Lôn Parc, Caernarfon.

Ar gyfer hogiau a genethod dros 7 oed hyd at oedran diwedd ysgol gynradd fe gynhelir yr ymarfer rhwng 5.30 a 6.30 o'r gloch.

Ar gyfer y pum dosbarth cyntaf yn yr ysgol uwchradd bydd ymarfer rhwng 6.30 a 7.30 o'r gloch.

Bydd croeso i bawb — aelodau hen a newydd.

**YDI'R CLYBIAU
PÊL-DROED LLEOL AM
YMATEB I'M CAIS
AM 'OHEBYDD'
SWYDDOGOL?**

**Codwch y ffôn:
(01248) 670115**